Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deisebau**

# P-06-1510 Dylid cyfarwyddo Cyfoeth Naturiol Cymru i ddirymu’r drwydded amgylcheddol a sicrhau bod Enovert a’i Safle Tirlenwi’r Hafod yn Wrecsam yn cau

Ionawr 2026



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Ffynhonnell y llun clawr - Mae "**Hafod Landfill**" gan **TCExplorer** wedi'i drwyddedu o dan **CC BY-SA 2.0**.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddDeisebau**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Deisebau**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **Deisebau@senedd.cymru**
X: **@SeneddDeisebau**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2026**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deisebau**

# P-06-1510 Dylid cyfarwyddo Cyfoeth Naturiol Cymru i ddirymu'r drwydded amgylcheddol a sicrhau bod Enovert a'i Safle Tirlenwi'r Hafod yn Wrecsam yn cau

Ionawr 2026

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddDeisebau**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Carolyn Thomas AS**
Llafur Cymru



**Rhys ab Owen AS**
Aelod Annibynnol



**Vaughan Gething AS**
Llafur Cymru



**Joel James AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Lindsay Whittle AS**
Plaid Cymru

---

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn.



**Luke Fletcher AS**
Plaid Cymru

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd .....5**

**Argymhellion .....7**

**1. Y ddeiseb .....9**

**2. Cefndir .....11**

Pwy sy'n rheoli safle tirlenwi'r Hafod? .....11

Diben yr ymchwiliad .....11

Amserlen yr ymchwiliad .....11

Pa fath o wastraff sy'n cael ei brosesu ac o ble mae'n dod? .....12

Achosion o Dorri'r Drwydded Amgylcheddol .....14

Pa broblemau y mae deisebwyr wedi bod yn eu profi? .....16

Lefelau trwytholchion a glawiad .....18

Beth mae Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyflwr Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi'i wneud am y sefyllfa? .....20

Cyfrifoldeb dros orfodi .....21

Sut y gellid dirymu trwydded amgylcheddol? .....23

Gorfodi .....26

Mesurau lliniaru a monitro ychwanegol .....27

Bygythiad i iechyd y cyhoedd, neu niwsans annifyr? .....29

Profion Arogli .....34

Ein barn ni .....35

A oes bwlch mewn goruchwyliaeth reoleiddiol? .....36

Ein barn ni .....37

Effeithiau newid hinsawdd .....38

Syrffed ar gwyno.......39

Ein barn ni.......41

Ymgysylltu â'r Gymuned.......41

Casgliadau Cyffredinol.......43

**Atodiad 1 : Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar....... 45**

**Atodiad 2 : Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig....... 46**

Gwybodaeth ychwanegol.......47

# Rhagair y Cadeirydd

Mae deisebau yn ffordd bwysig o godi materion sy'n bwysig i bobl yn eu cymunedau lleol. Mae'n rhoi cyfle i'r rhai sy'n teimlo eu bod yn brwydro yn erbyn sefydliadau mawr, pwerus gael eu lleisiau wedi'u clywed, hyd yn oed os nad yw'r canlyniad bob amser fel y byddent yn dymuno.

Mae preswylwyr wedi cwyno am sut mae arogl o'u safle tirlenwi lleol yn effeithio arnynt ers bron i ddau ddegawd. Mae arogl yn achosi gofid ac yn cael effaith negyddol ar eu bywydau. Mae'r geiriau 'anwybyddu' ac 'osgoi' yn dod i'r amlwg, ac mae preswylwyr yn dweud bod ymatebion wedi bod yn ymatebol yn hytrach na rhagweithiol. Hyd yn oed pan fo camau wedi'u cymryd, a'u bod yn dechrau dwyn ffrwyth, mae ymgyrchwyr yn teimlo bod hynny yn 'rhy fach ac yn rhy hwyr'. Mae 'syrffed ar gwyno' yn bodoli, ac mae'r Aelodau'n edmygu ymrwymiad yr ymgyrchwyr i barhau i godi eu pryderon a galw am weithredu.

Mae gwaith craffu'r Pwyllgor wedi rhoi llais y preswylwyr ar gofnod; wedi rhoi cwmnïau a rheoleiddwyr dan y chwyddwydr; wedi gwella cysylltiadau cymunedol; ac wedi tynnu sylw at bwysigrwydd casglu data gwell a chadarn. Mae wedi tanlinellu pwysigrwydd ymddiriedaeth a chysylltiadau cymunedol effeithiol – mae angen i bobl nid yn unig deimlo bod eu lleisiau wedi cael eu clywed, ond bod rhywun yn gwrando arnynt, a bod eu pryderon yn cael eu cymryd o ddifrif.

Nid rôl Pwyllgor Deisebau'r Senedd yw bod yn rheoleiddiwr. Fodd bynnag, os yw cyfundrefn reoleiddio yn wan, neu os yw cymunedau'n teimlo eu bod yn cael eu diystyru, yna gall Aelodau o'r Senedd herio hynny a mynnu gwelliannau. Nid yw arogl o safle tirlenwi yn broblem i breswylwyr Johnstown yn unig, ac fel y mae'r deisebwyr yn nodi, mae camau wedi'u cymryd mewn rhannau eraill o'r DU i gau safleoedd.

Er na all y Pwyllgor fynd mor bell â chefnogi galwad y deisebwyr ar i Lywodraeth Cymru gyfarwyddo Cyfoeth Naturiol Cymru i gau'r safle ar hyn o bryd, rydym yn gobeithio y bydd Gweinidogion Cymru, â phawb sy'n gyfrifol am reoli a rheoleiddio safleoedd tirlenwi, yn ystyried ein canfyddiadau ac yn sicrhau bod y

camau ychwanegol a welsom yn ystod y misoedd diwethaf yn cael eu cynnal, a bod y berthynas rhwng y gweithredwr, y rheoleiddiwr a'r gymuned leol yn gwella.

Rydym yn cydnabod bod llawer o ddisgwyliadau o'r ymchwiliad hwn, a bod disgwyl y gallai'r Pwyllgor ddatrys y problemau yn safle tirlenwi'r Hafod lle mae eraill wedi methu ers dros bron i ddau ddegawd. Rydym yn disgwyl ymateb i'n hadroddiad yn y Flwyddyn Newydd. Fodd bynnag, wrth i ni agosáu at ddiwedd tymor y Senedd, cyfrifoldeb Aelodau o'r Seithfed Senedd yn bennaf fydd cymryd y fantell a sicrhau bod unrhyw gamau y cytunwyd arnynt yn cael eu dilyn gan y rhai sy'n gyfrifol am ddatrys y problemau a amlygwyd.



**Carolyn Thomas AS**
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Dylai Enovert a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam sicrhau bod gwaith calibradu data monitro AQMesh Pod yn llawn ar gyfer cywirdeb yn digwydd cyn gynted â phosibl, a bod yr holl ddata monitro yn cael ei gyhoeddi ar unwaith pan fydd y gwaith calibradu wedi'i gwblhau. Rhaid i'r rheoleiddwyr a'r preswylwyr allu asesu canlyniad gweithgarwch monitro. Yn ddelfrydol, dylid darparu gwybodaeth mewn amser real os yw'r gallu technegol yn bodoli i wneud hynny. ........ Tudalen 36

**Argymhelliad 2.** Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru sicrhau bod staff sy'n cynnal 'profion arogli' cymunedol i helpu i asesu niwsans arogl wedi cael hyfforddiant priodol, a bod hyfforddiant a chymhwysedd i gynnal y profion hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. ........ Tudalen 36

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno monitro arogleuon awtomataidd gorfodol mewn safleoedd tirlenwi. Nid yw hyn yn rhywbeth sy'n ofynnol ar hyn o bryd gan Cyfoeth Naturiol Cymru, a dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod rheoleiddwyr yn cael eu hariannu'n ddigonol er mwyn hwyluso hyn. ........ Tudalen 37

**Argymhelliad 4.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai ymgysylltu â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r holl awdurdodau lleol i egluro sut y gall awdurdodau lleol ddefnyddio'r pwerau sydd ganddynt yn ymarferol i amddiffyn eu cymunedau rhag niwsans statudol, a pha feini prawf y byddai Gweinidogion Cymru yn eu defnyddio er mwyn cymeradwyo ymyrraeth, mewn achosion fel safle tirlenwi'r Hafod. ........ Tudalen 37

**Argymhelliad 5.** Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru ystyried a ddylai'r meini prawf ar gyfer mesur lefelau hydrogen sylffid ($H_2S$), sy'n achosi arogl "wyau wedi pydru", gael eu cynnwys mewn amodau trwydded amgylcheddol, ac adrodd yn ôl i Weinidogion Cymru ynghylch a ddylid comisiynu mwy o waith ar fesur trothwyon $H_2S$ priodol. ........ Tudalen 38

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am sicrwydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru bod y mesurau sydd ar waith mewn safleoedd tirlenwi yng Nghymru yn ddigonol i sicrhau eu bod yn wydn o ran hinsawdd yn ystod eu bywydau gweithredol ac ar ôl hynny. ........ Tudalen 38

**Argymhelliad 7.** Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru ymchwilio i weld a oes cysylltiad rhwng glawiad a chynhyrchiad hydrogen sylffid ($H_2S$) ar safle tirlenwi'r Hafod - gan ddefnyddio'r data monitro, a'r data tywydd sydd ar gael, nid nifer y cwynion yn unig. Os canfyddir bod cysylltiad, rhaid iddo ystyried hyn yn y dull rheoleiddio. ........ Tudalen 38

**Argymhelliad 8.** Dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Grŵp Rhanddeiliaid yr Hafod barhau i flaenoriaethu'r gwaith o ddehongli'r data monitro; asesu pa welliannau a allai fod yn angenrheidiol i'r dull casglu a dehongli annibynnol, a chyfathrebu ei waith ar y mater hwn trwy gyhoeddi diweddariadau o leiaf bob chwarter. ........ Tudalen 43

**Argymhelliad 9.** Dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam egluro mewn termau syml, er budd preswylwyr, yr amgylchiadau lle y mae wedi ymyrryd yng ngwaith gweithredu'r safle, a'r amodau lle y byddai'n ymyrryd yn y dyfodol. Dylai barhau i ddarparu diweddariadau ar-lein rheolaidd ac ymgynghori ag aelodau preswylwyr Grŵp Cyswllt yr Hafod ar y dulliau mwyaf priodol o gyfathrebu gwybodaeth. ........ Tudalen 43

**Argymhelliad 10.** Dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam egluro'r meini prawf ar gyfer cyfranogiad preswylwyr ar Grŵp Cyswllt yr Hafod a sicrhau bod cofnodion y cyfarfod yn cael eu clirio gyda'r rhai a oedd yn bresennol a'u cyhoeddi'n brydlon drwy ddulliau sy'n gwbl hygyrch i breswylwyr. ........ Tudalen 43

**Argymhelliad 11.** Dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam sicrhau bod preswylwyr yn cael eu cynrychioli'n uniongyrchol ar Grŵp Rhanddeiliaid yr Hafod. Dylai hyn gael ei gyfyngu i hyd at dri chynrychiolydd, a dylid caniatáu dirprwyon. ........ Tudalen 43

# 1. Y ddeiseb

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Steven Gittins a chasglwyd 1,125 o lofnodion. Cafodd ei chau ar 24 Chwefror 2025.

> *P-06-1510 Dylid cyfarwyddo Cyfoeth Naturiol Cymru i ddirymu'r drwydded amgylcheddol a sicrhau bod Enovert a'i Safle Tirlenwi'r Hafod yn Wrecsam yn cau*
>
> *Mae Safle Tirlenwi'r Hafod wedi achosi gofid yn y gymuned ers 18 mlynedd, felly dyma'r ymgyrch amgylcheddol hiraf yng Nghymru. Er gwaethaf ymdrechion gan y trigolion a chynrychiolwyr etholedig, mae'r safle yn parhau i ollwng arogleuon niweidiol, ac mae'n creu niwsans statudol annerbyniol. Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r corff sy'n gyfrifol am ddiogelu'r amgylchedd, ac mae wedi methu â chymryd camau gorfodi ystyrlon, gan ddibynnu yn lle hynny ar gyfiawnhad technegol a sicrwydd amwys. Nid diffyg rheoleiddio yn unig yw hyn, ond methiant i lywodraethu.*
>
> ***Gwybodaeth ychwanegol:***
>
> *Yn 2024, cyrhaeddodd yr arogl a'r llygredd aer lefelau gofidus ac argyfyngus. Nid oedd teuluoedd yn gallu agor eu ffenestri, a gorfodwyd y plant i chwarae dan do. Os yw fframwaith rheoleiddio Cyfoeth Naturiol Cymru yn caniatáu i safle ollwng arogleuon hynod bwerus a chyson er eu bod yn parhau i gydymffurfio, yna mae'n amlwg nad yw'r rheoliadau yn addas i'r diben. Roedd eu Harolwg eu hunain diwethaf yn nodi methiannau allweddol fel injan nwy anweithredol, a oedd yn cynyddu'r nwyon tirlenwi a gâi eu rhyddhau. Capio dros dro ar gelloedd tirlenwi nad ydynt yn cynnwys yr arogleuon. Gollyngiadau cyson o fannau lluosog ar y safle. Oedi wrth uwchraddio'r seilwaith, sy'n arwain at fod y safle yn agored i ormod o allyriadau. Ym mis Mai 2020, dechreuodd tân sylweddol, a oedd yn llosgi am sawl diwrnod ac yn cynhyrchu mwg du trwchus. Cofnododd Cyfoeth Naturiol Cymru lefelau llygredd aer oedd 14 gwaith yn uwch na'r lefel a ganiateir. Os na all Cyfoeth Naturiol Cymru ddwyn Enovert*

*i gyfrif, a'i fod wedi methu â gwneud hynny mewn 18 mlynedd, yna mae angen ymchwiliad annibynnol i'w effeithiolrwydd fel corff rheoleiddio ar frys.*

*https://www.facebook.com/share/p/1LFuumVdjs/*

# 2. Cefndir

Cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad byr ar y ddeiseb hon rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2025 cyn adrodd ar ganfyddiadau allweddol gerbron y Senedd.

### Pwy sy'n rheoli safle tirlenwi'r Hafod?

**1.** Cafodd Mersey Waste Holdings ganiatâd[1] i weithredu hen safle chwarel yr Hafod fel safle tirlenwi yn 2004 yn dilyn ymchwiliad cyhoeddus. Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi gwrthod cais y cwmni yn flaenorol. Ers mis Tachwedd 2008, mae wedi cael ei weithredu gan Enovert North Ltd. (Cory Environmental Limited gynt) ("Enovert"). Mae'r safle tirlenwi yn gweithredu o dan drwydded amgylcheddol (PP3139GB) a ddyroddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheoleiddio safleoedd gwastraff yn unol â'i egwyddorion rheoleiddio.[2]

### Diben yr ymchwiliad

**2.** Bwriad yr ymchwiliad byr hwn oedd taflu goleuni ar y materion a godwyd gan y ddeiseb, a rhoi llais i breswylwyr yr effeithir arnynt gan arogl o'r safle tirlenwi hwn. Roedd yr Aelodau'n awyddus i glywed gan yr awdurdodau rheoleiddio, y gweithredwr a phreswylwyr, er mwyn deall y materion yn well. Ystyriodd y Pwyllgor dystiolaeth gan breswylwyr yr effeithiwyd arnynt yn uniongyrchol cyn ac ar ôl clywed tystiolaeth gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau allweddol.

### Amserlen yr ymchwiliad

**3.** Cafodd y ddeiseb ei hystyried gyntaf ar 28 Ebrill 2025, gyda'r deisebydd yn darparu tystiolaeth sylweddol. Nododd yr Aelodau fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cymryd mesurau i ddelio â materion diffyg cydymffurfio ar y safle, ac roedd yr Ysgrifennydd Cabinet yn glir na fyddai'n rhoi cyfarwyddyd i gau'r safle.

**4.** Archwiliodd y Pwyllgor p'un a allai'r pwyllgorau craffu polisi perthnasol yn y Senedd ymchwilio i'r mater ymhellach, fodd bynnag, roedd ymrwymiadau craffu deddfwriaethol yn atal hynny. Ar 16 Mehefin 2025, cytunodd y Pwyllgor hwn i

[1] BBC NEWS | Wales | South West Wales | Quarry landfill given go-ahead
[2] Cyfoeth Naturiol Cymru / Ein hegwyddorion rheoleiddio

glywed tystiolaeth lafar gan y rheoleiddwyr a'r gweithredwr ynglŷn â sut yr oeddent yn mynd i'r afael â phryderon deisebwyr. Cafodd hyn ei drefnu ar gyfer tymor yr hydref er mwyn caniatáu amser ar gyfer gwaith pellach gan Grŵp Rhanddeiliaid yr Hafod a grŵp preswylwyr, ac er mwyn i fesurau adfer Enovert gael eu gweithredu'n llawn. Gwahoddodd y Pwyllgor dystiolaeth ysgrifenedig hefyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, a phreswylwyr lleol ar Grŵp Cyswllt yr Hafod.

**5.** Ysgrifennodd tri chynghorydd lleol at y pwyllgor ym mis Awst 2025 gan nodi bod preswylwyr wedi adrodd ar lefelau arogl annerbyniol ers amser maith, sy'n cael effaith uniongyrchol ar ansawdd bywyd a hyder y cyhoedd o ran sut mae'r safle yn cael ei reoleiddio. Tynnwyd sylw at y cynnig y cytunwyd arno gan y cyngor ym mis Chwefror 2025, gan alw am weithredu cryfach gan gynnwys:

- Cysylltiadau gwell a mwy tryloyw â'r Pwyllgor Cyswllt sefydledig;
- Creu grŵp rhanddeiliaid newydd i gryfhau atebolrwydd a sicrhau bod lleisiau preswylwyr yn cael eu clywed;
- Gosod offer monitro a chynnal asesiad iechyd.

**6.** Anogodd y cynghorwyr y Pwyllgor i nodi'r cynnydd a wnaed, ond hefyd i barhau i bwyso am gamau pellach i sicrhau bod preswylwyr yn teimlo eu bod yn cael eu hamddiffyn a'u cynnwys yn y cynnydd ynghylch safle'r Hafod.[3]

**7.** Yn dilyn tystiolaeth lafar gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Enovert ar 22 Medi, gwnaeth nifer sylweddol o breswylwyr lleol wrthbrofi'r dystiolaeth honno. Yna clywodd yr Aelodau dystiolaeth lafar gan y prif ddeisebydd ar 10 Tachwedd.

## Pa fath o wastraff sy'n cael ei brosesu ac o ble mae'n dod?


**8.** Mae diraddiad gwastraff mewn safleoedd tirlenwi yn cynhyrchu nwy tirlenwi a thrwytholch. Yn yr Hafod mae'r nwy tirlenwi yn cael ei gasglu i'w ddefnyddio fel tanwydd, tra bod y trwytholch yn cael ei storio mewn tanceri i'w brosesu'n ddiweddarach mewn cyfleusterau trin dŵr gwastraff. Rhoddodd Enovert wybodaeth fanwl am y mathau o wastraff y mae'n ei dderbyn a ffynonellau'r gwastraff.[4]

[3] Cynghorwyr Wrecsam at y Pwyllgor 20 Awst 2025
[4] Y Pwyllgor Deisebau, 22 Medi 2025, Gohebiaeth gan Enovert

**9.** Dywedodd prif weithredwr Enovert wrth y Pwyllgor: *"We take solid waste only. We take non-hazardous biodegradable material. So, they could typically be anything from waste plastics, transfer station material that's been pre-sorted, or material coming to site from those facilities, and all pre-sorted. We do accept some material that are classed as 'LOI fine'—so, again, material that's been segregated from various waste streams. But it's largely a mix of industrial, commercial waste that we accept"*[5]. Eglurodd hefyd: *"we don't take any municipal waste directly. But, as you're perhaps aware, we do take material when their incinerators shut down. So, the site effectively acts as a contingency for when energy-from-waste plants may go offline. Or, if there's a problem in that supply chain into the EFW plants, then waste may be diverted to us, not directly from the local authority, but maybe through one of their contractors, for example"*[6].

**10.** Un o gwynion preswylwyr yw nad eu gwastraff nhw ydyw. Dywed Enovert fod tua 10% o'r holl wastraff yn wastraff 'bag du' gweddilliol sy'n cael ei ddargyfeirio o weithfeydd Ynni o Wastraff. Daeth ychydig dros hanner gwastraff 2024 (54%) o siroedd cyfagos yn Lloegr, gyda'r rhan fwyaf o'r gweddill yn dod o ogledd Cymru:

[5] Y Pwyllgor Deisebau, 22 Medi 2025, Paragraff 154
[6] Y Pwyllgor Deisebau, 22 Medi 2025, Paragraff 156




*Ffynhonnell: Enovert*

## Achosion o Dorri'r Drwydded Amgylcheddol

**11.** Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn crynhoi canfyddiadau ei arolygiadau safle, archwiliadau a gweithgareddau monitro mewn Adroddiadau Asesu Cydymffurfiaeth, ac maent i gyd ar gael ar ei gofrestr gyhoeddus.[7] Mae adroddiad cydymffurfio Chwefror 2025 yn manylu ar bum 'diffyg cydymffurfio' ag amodau trwyddedau amgylcheddol yn safle tirlenwi'r Hafod, sy'n ymwneud â:

- rheoli trwytholch;
- nwy tirlenwi;
- monitro clorid; a

[7] Cofrestr gyhoeddus - Porth y Cwsmer

- monitro dŵr wyneb.

**12.** Roedd 26 achos o allyriadau methan tirlenwi yn fwy na'r swm a ganiateir yn ystod chwarter olaf 2024.

**13.** Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru[8] y bu cynnydd mewn adroddiadau am achosion o arogl yn 2023, a dywedodd wrth Enovert am gymryd camau i leihau allyriadau sy'n ffoi (anfwriadol) hirdymor ddiwedd 2024. Hefyd, dyroddodd Hysbysiad Gorfodi 'Rheoliad 36' ar 21 Rhagfyr 2023, a oedd yn cynnwys "sawl cam yr oedd angen eu cymryd i fynd i'r afael â'r cwynion am arogleon a adroddwyd rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2023". Dywed Cyfoeth Naturiol Cymru fod Enovert wedi cydymffurfio â'r hysbysiad, wedi cwblhau gwaith cysylltiedig, ac wedi diweddaru ei gynllun gweithredu yn ymwneud â'i weithdrefnau rheoli. Adroddodd Cyfoeth Naturiol Cymru gynnydd hefyd mewn adroddiadau am arogleuon ym mis Rhagfyr 2024 ac Ionawr 2025, gan ychwanegu:

> *"Odour incident reports peak in January 2025, at 240, and we have seen a decreasing trend in complaints since then, as improvement works have been undertaken at the site. Some of these improvements were already planned but our regulatory work has given focus and strict timescales for completion."*[9]

**14.** Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru: "*We continue to undertake unannounced inspections and site audits. Some leachate levels are in breach of the Permit requirements and we are considering further enforcement action. At present the site operator is still working through several actions which we believe are addressing the issues at the site. In the meantime, we will continue to regulate them closely*"[10].

**15.** Ym mis Medi 2025 gofynnwyd i Cyfoeth Naturiol Cymru pryd yr ymwelwyd â'r safle ddiwethaf. Dywedodd James McClymont:

> *"So, we actually went earlier this week to check the site, and we found that we were satisfied with the mitigation that's in place at the moment. We detected there is one area of odour, which we detect quite often, on an adjacent road to Hafod landfill site. There are no residents living in that area; it's a road directly adjacent to the site. So, there are still some offsite odours that*

[8] Y Pwyllgor Deisebau, 22 Medi 2025, Gohebiaeth gan Cyfoeth Naturiol Cymru
[9] Y Pwyllgor Deisebau, 22 Medi 2025, Gohebiaeth gan Cyfoeth Naturiol Cymru
[10] Y Pwyllgor Deisebau, 22 Medi 2025, Gohebiaeth gan Cyfoeth Naturiol Cymru

> *we detect at that location, but we haven't detected any in the communities of Johnstown and Ruabon on our recent inspections of the area."*[11]

**16.** Mae'r ddeiseb hefyd yn cyfeirio at dân yn y safle tirlenwi yn 2020. Ni wnaeth yr ymchwiliad ofyn am dystiolaeth ychwanegol ar y digwyddiad penodol hwn, o ystyried faint o amser oedd wedi mynd heibio a ffocws y deisebwyr ar faterion diweddar gydag arogl nwyon tirlenwi a/neu drwytholch. Nododd y Pwyllgor, ar 10 Mehefin 2020, fod Llyr Gruffydd AS wedi gofyn i'r Prif Weinidog ar y pryd, Mark Drakeford AS, am ymchwiliad annibynnol i achos y tân ac i gau'r safle tirlenwi yn y cyfamser. Dywedodd y Prif Weinidog fod gan nifer o awdurdodau gyfrifoldebau i ddarparu adroddiadau am y tân, ac y "bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried yr adroddiadau hynny ac yna'n penderfynu pa gamau pellach y gallai fod eu hangen"[12]. Mae gwybodaeth am gydymffurfiaeth yn ymwneud â'r tân ar gael yng nghofrestr gyhoeddus Cyfoeth Naturiol Cymru.

## Pa broblemau y mae deisebwyr wedi bod yn eu profi?

**17.** Nwy yw Hydrogen Sylffid ($H_2S$) sy'n cael ei ryddhau wrth ddadelfennu deunydd organig ac mae'n gysylltiedig ag arogl tirlenwi - arogl 'wy wedi pydru'. Roedd adroddiad[13] i Bwyllgor Craffu ar Gartrefi a'r Amgylchedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ym mis Ebrill 2025 yn dangos nifer sylweddol o gwynion am arogleuon yn ystod 2024.

**18.** Esboniodd tystiolaeth ysgrifenedig Cyfoeth Naturiol Cymru fwy am arogl safleoedd tirlenwi:

> *"Odours are the result of complex interactions within the site. Whether they can be smelt offsite, and where they will be smelt, is often a result of local weather conditions. If you notice the smell one day but not the next this could be because of a change in temperature, wind speed or direction or a change in atmospheric pressure. For example, gasses will always move toward an area of lower pressure, as a result we are more likely to experience odours when the atmospheric pressure is low or falling. Similarly, on colder or still days the odours are not*

[11] Y Pwyllgor Deisebau, 22 Medi 2025, Paragraff 58
[12] Cyfarfod Llawn 10/06/2020 - Senedd Cymru
[13] (Pecyn Cyhoeddus) Eitem 5 Rhaglen Pwyllgor Craffu ar Gartrefi a'r Amgylchedd, 29/04/2025 10:30

*dispersed as quickly which means we are more likely to experience odours."*[14]

**19.** Mae preswylwyr lleol yn cwyno am yr arogl a'r effaith y mae'n ei chael ar eu bywydau bob dydd, yn codi pryderon am risgiau iechyd posibl, a phryder am ddyfodol eu cymuned leol, o ystyried pa mor hir y mae'r problemau wedi bodoli, a'r ffaith bod y caniatâd cynllunio presennol ar gyfer y safle yn rhedeg tan 2043[15]:

> *"On a bad day during the summer months, we can't always enjoy our gardens, I've had to keep my children indoors numerous times because the stench has been so bad. We can't have doors or windows open! The smell is also bad during the winter months when it's wet."*
>
> *Preswylydd lleol*
>
> *"Residents of Johnstown and the surrounding communities, including Ruabon, Rhosllanurchrugog, Ponciau, Penycae, have had to endure noxious odours from this site for more than 20 years; often during the night, when the smells enter our homes. This happened recently when I had to close the bedroom window at 5.00 am, although the smell remained in the house long after the windows were closed. This issue has been raised in previous meetings, but we have not been given an explanation as to why this occurs so frequently outside the site's hours of operation."*
>
> *Preswylydd lleol ac aelod o Grŵp Cyswllt yr Hafod*
>
> *"After a very dry year we have had several days with rain recently and we have had both odour present and leachate running off the site."*
>
> *Preswylydd lleol ac aelod o Grŵp Cyswllt yr Hafod*
>
> *"With the ongoing toxic living conditions of the Johnstown and wider area surrounding the Hafod landfill remaining unchanged, the residents here are terrified of what the next 3 decades holds."*
>
> *Preswylydd lleol*

[14] Y Pwyllgor Deisebau, 22 Medi 2025, Gohebiaeth gan Cyfoeth Naturiol Cymru
[15] Pwyllgor Craffu ar Gartrefi a'r Amgylchedd - dydd Mawrth 29 Ebrill 2025, 10:30am - Gweddarllediad Cyngor Wrecsam

> *"The distinctive "rotten egg" smell of Hydrogen Sulphide is unmistakable. Residents know exactly what they're breathing. Suggesting otherwise is not only insulting, it erodes public trust"*
>
> *"Our community is not asking for special treatment or favours. We are asking for what every person in Wales should be entitled to: clean air, health protection and environmental accountability. These are not luxuries they are fundamental rights. For nearly two decades, residents of Johnstown and nearby villages have been forced to endure conditions that would not be tolerated elsewhere. We have documented evidence of regulatory breaches, and persistent pollution. This is not a matter of perception or exaggeration; it is supported by the many protests, long standing campaigns and lived experience of all the local residents. What is missing is not information, but the political will to act upon it."*
>
> *Prif ddeisebydd a phreswylydd lleol*

**20.** Mae preswylwyr yn nodi bod deddfwriaeth wedi symud ymlaen ers i'r drwydded gael ei rhoi 20 mlynedd yn ôl, ac ni fyddai cael safle tirlenwi mor agos at eiddo preswyl yn cael ei ganiatáu heddiw. Yn yr Hafod, dim ond rheilffordd sy'n gwahanu'r tai agosaf oddi wrth ffin y safle.[16]

## Lefelau trwytholchion a glawiad

**21.** Mae preswylwyr yn dweud bod yr arogl yn gwaethygu pan mae'n bwrw glaw, gan dynnu sylw at dystiolaeth ffotograffig o'r hyn maen nhw'n ei ddweud yw trwytholch yn dianc o'r safle yn dilyn tywydd gwlyb.

**22.** Dywedodd James McClymont o Cyfoeth Naturiol Cymru wrth y pwyllgor:

> *"We have got complaints data running back to 2007, and there isn't evidence in that data to suggest that odours are particularly worse in the winter months. So, it doesn't appear that that has an impact, although there is a link potentially between leachate levels and fugitive emissions of odour. And that's why we are progressing those leachate action plans and*

[16] Y Pwyllgor Deisebau, 22 Medi 2025, Gohebiaeth gan Ann Griffiths, Grŵp Cyswllt Tirlenwi yr Hafod, Eitem 2

> *we're asking the operator to focus on leachate management, so that we can eliminate that as a source of those odours."*[17]

**23.** Pan ofynnwyd iddo am effaith y glaw, dywedodd prif weithredwr Enovert nad oedd wedi sylwi ar hynny yn benodol ar y safle gweithredol.[18] Nododd, ynghyd â chasglu data allyriadau $H_2S$ ar ffin y safle ac yn y gymuned, fod y gweithredwr, ers blynyddoedd lawer, wedi bod â gorsaf dywydd weithredol ar y safle tirlenwi, a dywedodd na fyddai wedi bod yn anodd *gwneud cymhariaeth o'r ddwy set ddata yn erbyn yr amodau tywydd, i weld a oes unrhyw batrymau. Dywedodd y byddai'n ddigon hapus gwneud hynny.*[19]

**24.** Roedd nifer o breswylwyr yn herio'n gryf y dystiolaeth gan Cyfoeth Naturiol Cymru a'r gweithredwr ar y pwynt hwn, gyda'r prif ddeisebydd yn tynnu sylw at dystiolaeth wyddonol o gysylltiad rhwng glawiad, lefelau trwytholch ac arogl ar safleoedd tirlenwi.[20] Dywedodd un o'r preswylwyr: *"…Ironically, the timing of the Petitions Committee [scrutiny session] is somewhat advantageous to Enovert. The recent increased scrutiny has coincided with weather conditions that have traditionally produced lower odour levels, but as we move into autumn and the focus on the site has concluded, the gas smell will become unbearable again"*[21].

**25.** Gwnaeth Cadeirydd y Pwyllgor ymweliad preifat ar 18 Awst 2025 i ymgyfarwyddo ei hun â'r safle. Nid oedd yr ymweliad wedi'i gynllunio ymhell ymlaen llaw, a chafodd y Cadeirydd daith o amgylch y safle gweithredol. Ar y pryd doedd dim arogl amlwg, ond roedd hwn ar ddiwrnod arbennig o boeth, sych, gyda thymheredd o tua 70˚F.

**26.** Mae'r preswylwyr hefyd yn cwyno eu bod wedi cael gwybod yn y gorffennol nad yw arogl o reidrwydd yn dod o'r safle tirlenwi ond o bosibl o ffynonellau lleol eraill. Unwaith eto, gwnaethant herio'r awgrym hwn yn gryf:

> *"We have often been told, for example, that the odours are agricultural in nature or they have been caused not by the landfill, but by any one of a number of factories on the nearby Vauxhall Industrial Estate. (Liaison Group minutes 11 March 2025). When you have lived most of your life in an area where there are farms you tend to be able*

---

[17] Y Pwyllgor Deisebau, 22 Medi 2025, Paragraff 62
[18] Y Pwyllgor Deisebau, 22 Medi 2025, Paragraff 195
[19] Y Pwyllgor Deisebau, 22 Medi 2025, Paragraff 195
[20] Y Pwyllgor Deisebau, 10 Tachwedd 2025, Gohebiaeth gan y Deisebydd (Tudalennau 10-13)
[21] Y Pwyllgor Deisebau, 22 Medi 2025, Gohebiaeth gan Ann Griffiths, Grŵp Cyswllt Tirlenwi yr Hafod, Eitem 2.

> *to recognise agricultural smells quite easily. Also living relatively close to a small industrial estate, where many residents actually work, you come to know those smells too. No other activities produce the horrendous gas smells that emanate from the landfill site."*
>
> *Ann Griffiths, Grŵp Cyswllt Tirlenwi yr Hafod*

**27.** Tynnwyd sylw at adroddiadau yn y cyfryngau am broblemau tebyg ar ddau safle Enovert arall yn Lloegr – yn Walsall a Stanway, ger Caer Colun (*Colchester*) – gydag ymatebion tebyg gan y gweithredwr a'r rheoleiddiwr: Dywed Enovert ei fod yn gweithredu yn unol â'i drwydded, ac mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn tynnu sylw at ffynonellau arogl posibl eraill.[22]

## Beth mae Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyflwr Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi'i wneud am y sefyllfa?

**28.** Dywed Cyfoeth Naturiol Cymru ei fod *"yn deall pryder y gymuned leol ynghylch y materion arogl yn Johnstown"*[23]. Mae wedi sefydlu Gofod Dinasyddion 'Sut rydym yn rheoleiddio Safle Tirlenwi Hafod, Wrecsam' ar ei wefan, gyda chyfle i gofrestru ar gyfer cylchlythyr, ac mae wedi cyhoeddi diweddariadau rheolaidd ar sut mae'n rheoleiddio'r safle. Roedd diweddariad Chwefror 2025 yn esbonio'n fanylach beth oedd yn ei wneud i wella'r sefyllfa: y cynllun gweithredu a'r rhaglen monitro arogleuon. Cyhoeddwyd diweddariadau pellach ym mis Mawrth a mis Mai 2025. Rhoddodd swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru ddiweddariad hefyd am y camau a gymerwyd i Bwyllgor Craffu ar Gartrefi a'r Amgylchedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 29 Ebrill 2025.[24]

**29.** Cynhaliodd tîm arbenigol archwiliad nwy tirlenwi ym mis Tachwedd 2024, ac yna adroddiad asesu cydymffurfiaeth gyda chamau pellach i'w cymryd. Yng nghyfarfod y cyngor ym mis Ebrill cydnabu'r rheoleiddiwr fod angen mwy o weithredu, ond dywedodd fod y drwydded yn eithaf clir o ran ei ddisgwyliadau a dywedodd ei fod wedi bod yn eithaf cyflym i weithredu os yw'n canfod nad yw'r gweithredwr yn cydymffurfio â'r drwydded, ac roedd yn teimlo bod Enovert wedi bod yn ymateb i'r camau hynny sy'n ofynnol iddynt. Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru ei fod wedi cynnal nifer o ymweliadau dirybudd â'r ardal.

[22] Gohebiaeth gan Anne Griffiths Grŵp Cyswllt yr Hafod
[23] Sut rydym yn rheoleiddio Safle Tirlenwi Hafod, Wrecsam - Gofod Dinaysddion
[24] Pwyllgor Craffu ar Gartrefi a'r Amgylchedd - dydd Mawrth 29 Ebrill 2025, 10:30am - Gwellddarllediad Cyngor Wrecsam

**30.** Nododd diweddariad[25] gan Grŵp Rhanddeiliaid Tirlenwi'r Hafod ym mis Mawrth 2025:

> *"Cytunodd yr holl bartneriaid i helpu i gynnal gwybodaeth ar wefan CNC, a phwysleisiodd y cynghorau cymuned eu hymrwymiad i helpu i roi gwybod i drigolion lleol sy'n methu â chael mynediad i'r rhyngrwyd.*
>
> *Mae Cyngor Wrecsam, Enovert a CNC wedi ymrwymo hefyd i weithio gyda'i gilydd i ddarparu gwybodaeth i'r gymuned o'r monitorau ansawdd aer amser real a osodwyd yn ddiweddar, ac i ymgysylltu â phartneriaid iechyd y cyhoedd yn briodol."*

**31.** Mae'r preswylwyr wedi bod yn feirniadol iawn o'r ymateb gan y gweithredwr a'r rheoleiddiwr fodd bynnag, gan ddisgrifio ymatebion 'torri a gludo' i bryderon preswylwyr, sy'n dangos difaterwch cynhenid at realiti byw mor agor at safle tirlenwi.[26]

## Cyfrifoldeb dros orfodi

**32.** Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn gyfrifol am benderfyniadau gweithredol ar reoli gwastraff yn yr ardal yr effeithir arnynt. Mae wedi ymgymryd â nifer o fesurau i fynd i'r afael â phryderon preswylwyr, ac mae'n bwysig nodi nad oes modd derbyn deisebau yn y Senedd os ydynt yn ymwneud â materion gweithredol awdurdodau lleol yn unig. Mae'r Pwyllgor yn parchu datganoli priodol o bwerau i lefel leol, ac roedd modd derbyn y ddeiseb hon oherwydd, er ei bod yn ymwneud â mater awdurdod lleol, roedd y deisebwyr yn galw ar *Lywodraeth Cymru* i roi cyfarwyddyd i Cyfoeth Naturiol Cymru ddirymu'r drwydded amgylcheddol.

**33.** Mae'r deisebwyr yn glir eu bod am i'r safle hwn gael ei gau. Maent yn dweud bod Enovert wedi cael digon o amser i wneud pethau'n iawn.[27] Mae hefyd yn bwysig bod yn glir o ran yr hyn y gall y Pwyllgor Deisebau ei wneud ac na all ei wneud mewn perthynas â'r ddeiseb hon. Nid oes gan y Senedd na'r Pwyllgor Deisebau bwerau uniongyrchol i gau'r safle, nac i orfodi'r gweithredwr – sy'n gwmni preifat – i gymryd camau penodol. Mater i'r rheoleiddiwr – sef Cyfoeth Naturiol Cymru – yw hyn, fel corff a noddir gan Lywodraeth Cymru sydd â phwerau

[25] Diweddariad ar safle tirlenwi Hafod – Mawrth 2025 - Newyddion Cyngor Wrecsam
[26] Y Pwyllgor Deisebau, 22 Medi 2025, Gohebiaeth gan Ann Griffiths, Grŵp Cyswllt Tirlenwi yr Hafod, Eitem 2.
[27] Y Pwyllgor Deisebau, 10 Tachwedd 2025, Gohebiaeth gan breswylydd lleol

statudol, neu i'r corff hwnnw gael ei gyfarwyddo gan Weinidogion Cymru. Rhaid i'r gweithredwr reoli'r safle yn unol ag amodau ei drwydded amgylcheddol.

**34.** Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig wrth y Pwyllgor[28] ei fod wedi cyfarfod â swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru ac uwch reolwyr Enovert ar 19 Mawrth 2025, ond dywedodd mai penderfyniad rheoleiddio/gweithredol ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru ydoedd, ac nad oedd o'r farn ei bod yn angenrheidiol ei gyfarwyddo i ddirymu'r drwydded:

> *"Er bod gan Weinidogion Cymru y pŵer i gyfarwyddo'r rheoleiddiwr wrth arfer eu swyddogaethau, diben y pŵer gwneud cyfarwyddyd hwn yw cyfarwyddo camau penodol i'w cymryd lle bo'n briodol o dan yr amgylchiadau i Weinidogion Cymru wneud y penderfyniad yn hytrach na CNC. Gan fod y materion ar safle tirlenwi Hafod yn benderfyniadau rheoleiddiol/gweithredol, rwy'n hyderus mai CNC fel y rheoleiddiwr sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu ar y camau rheoleiddio priodol ac y byddant yn cymryd pa gamau bynnag sy'n angenrheidiol i ddiogelu'r amgylchedd a diogelu cymunedau lleol. Felly, nid wyf yn teimlo bod angen cyfarwyddo CNC i ddiddymu'r drwydded. Mae gan CNC ddyletswydd i reoleiddio safleoedd yn unol â'r gyfraith. Os ydynt yn credu nad yw safle'n gallu cydymffurfio unwaith eto ac yn peri risg sylweddol i'r amgylchedd ac i iechyd pobl, bydd y camau gorfodi priodol yn cael eu cymryd."*[29]

**35.** Mae tystiolaeth y prif ddeisebwyr yn beirniadu dull Cyfoeth Naturiol Cymru yn hallt, ac yn cwestiynu a yw'r safonau cywir (Normau Ewropeaidd) wedi'u cymhwyso, a sut mae dull Cyfoeth Naturiol Cymru yn wahanol i'r dull mewn rhannau eraill o'r DU. Dywed:

> *"By declining to adopt the most up-to-date QA [Quality Assurance] standards, NRW may risk breaching the precautionary principle and the duty to pursue continuous improvement in environmental monitoring; The Well-being of*

[28] Y Pwyllgor Deisebau, 28 Ebrill 2025, Gohebiaeth gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd, 2 Ebrill 2025, Eitem 2
[29] Y Pwyllgor Deisebau, 28 Ebrill 2025, Gohebiaeth gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd, 2 Ebrill 2025, Eitem 2

*Future Generations (Wales) Act 2015 objective to protect health and environmental quality; and the regulator's positive obligations under Article 8 of the European Convention on Human Rights, to safeguard individuals from serious environmental nuisance."*[30]

## Sut y gellid dirymu trwydded amgylcheddol?

**36.** Esboniodd Cyfoeth Naturiol Cymru[31] fod dwy ffordd y gellir cau safle tirlenwi yn ffurfiol o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 a'r Gyfarwyddeb Tirlenwi:

1. Cau wedi'i gychwyn gan y gweithredwr - Pan fydd gweithredwr safle tirlenwi gweithredol yn rhoi'r gorau i dderbyn gwastraff yn barhaol, gall ddechrau ar y weithdrefn gau. Rhaid iddo gydymffurfio â'r drwydded a chael seilwaith, technegau gweithredu a chynlluniau rheoli priodol ar waith i reoli'r safle trwy'r cyfnod ôl-ofal.

2. Cau wedi'i gychwyn gan y rheoleiddiwr - Pan fydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn penderfynu bod rhaid i safle gau ac yn cyhoeddi Hysbysiad Cau. Bydd hyn fel arfer pan fydd rheolaeth safle gweithredol yn wael a gall gwaith gweithredu pellach ar y safle arwain at lygredd sylweddol, hirdymor.

**37.** Ychwanegodd fod Hysbysiad Cau fel arfer yn cael ei ddefnyddio fel dewis olaf ar ôl mynd drwy bob opsiynau gorfodi arall. O dan Hysbysiad Cau, rhaid i'r gweithredwr barhau i gydymffurfio ag amodau ei drwydded ac mae'n parhau i fod yn gyfrifol am gynnal mesurau rheoli llygredd gweithredol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Ysgrifennydd Cabinet felly wedi pwysleisio na fyddai cau'r safle yn datrys y broblem, gan y byddai angen rheolaeth weithredol o hyd. Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog wrth y Pwyllgor:

*"Mae angen ystyried yr holl ffeithiau a goblygiadau cyn dirymu trwydded, gan gynnwys canlyniadau unrhyw gamau gweithredu ar allu cwmni i weithredu ac a allai dirymu'r drwydded arwain at ganlyniad gwaeth fel y safle a gwastraff yn cael ei adael. Wrth benderfynu pa gamau i'w cymryd mae'r rheoleiddiwr yn asesu'r risg a berir ac maent yn gweithio gyda'r*

[30] Y Pwyllgor Deisebau, 10 Tachwedd 2025, Gohebiaeth gan y Deisebydd
[31] Y Pwyllgor Deisebau, 22 Medi 2025, Gohebiaeth gan Cyfoeth Naturiol Cymru

*gweithredwr i sicrhau bod y safle yn cydymffurfio. Ni fyddai dirymu'r drwydded a chau'r safle yn datrys y problemau arogleuon presennol ar unwaith, gan fod angen rheolaeth barhaus ar drwytholch a nwy tirlenwi i leihau effeithiau posibl oddi ar y safle."*[32]

**38.** Mae'r prif ddeisebydd yn anghytuno'n gryf â'r ddadl hon yn erbyn cau. Dywedodd fod ymateb y Dirprwy Brif Weinidog yn osgoi'r ateb ac yn gamarweiniol a bod pryderon am gau yn anghywir, gan dynnu sylw at yr amodau trwydded sy'n golygu bod y gweithredwr yn parhau i fod yn gyfreithiol rhwymedig i gyflawni dyletswyddau cau ac ôl-ofal hyd yn oed ar ôl dirymu. Disgrifiodd y sefyllfa fel argyfwng iechyd cyhoeddus, amgylcheddol ac atebolrwydd, a dywedodd:

*"To suggest that closing the site might cause greater harm implies that residents must accept ongoing exposure to foul odours and associated health risks simply to avoid enforcing the law. This is staggering position which sets a dangerous precedent, one where a permitted operator may breach environmental standards with impunity because enforcement might be "too risky". If NRW cannot enforce closure obligations, that is an indictment of the regulator, not a justification for continued harm."*[33]

**39.** Mewn diweddariad cylchlythyr[34] ym mis Chwefror 2025 ar y safle tirlenwi, esboniodd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyhoeddus o dan ba amgylchiadau y gall ddirymu trwydded amgylcheddol:

*Mae safle tirlenwi yr Hafod yn gweithredu o dan drwydded amgylcheddol, sy'n nodi'r mathau a'r symiau o wastraff y gellir eu derbyn ar y safle. Nid yw'r rheoliadau trwyddedu yn caniatáu i ni gyfyngu ar ffynonellau'r gwastraff.*

*Dim ond os credwn fod y gwaith yn peri risg difrifol i'r amgylchedd neu iechyd pobl y byddwn yn dirymu trwyddedau, ac os yw pob ymgais arall i leihau'r arogl wedi'i dihysbyddu. Ar hyn o bryd, mae'r*

[32] Y Pwyllgor Deisebau, 28 Ebrill 2025, Gohebiaeth gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd, 2 Ebrill, Eitem 2
[33] Y Pwyllgor Deisebau, 28 Ebrill 2025, Deisebau - Steve Gittins
[34] Diweddariad Safle Tirlenwi Hafod

> *gweithredwyr yn dal i weithio drwy nifer o gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r materion, ac rydym yn eu rheoleiddio'n graff.*
>
> *Ni fyddai cau'r safle yn cael gwared ar yr arogleuon ar unwaith, gan y byddai angen rheoli trwytholch a nwy tirlenwi o hyd i leihau'r posibilrwydd o arogleuon oddi ar y safle.*
>
> *Mae ein camau rheoleiddio yn cael eu harwain gan ein hegwyddorion rheoleiddio cyhoeddedig, gan sicrhau dull cytbwys a rhagweithiol.*

**40.** Tynnodd Cyfoeth Naturiol Cymru sylw at ymweliadau safle rheolaidd. Dywedodd James McClymont wrth y Pwyllgor: *"Since October 2023, we've almost been on a weekly basis to Johnstown and Ruabon to do our odour rounds and assessments. We also respond directly to odour incident reports from the public, so they can be quite ad hoc. But at the moment we've been attending on a fairly regular basis—so, at least, normally, once a week"*[35].

**41.** Gallai Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ddyroddi hysbysiad atal o dan Adran 80 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 os ystyrir bod y safle yn 'niwsans statudol'. Fodd bynnag, pan allai'r un digwyddiad hefyd gael ei erlyn gan y rheoleiddiwr o dan y Rheoliad Trwyddedu Amgylcheddol, rhaid i Awdurdod Lleol gael caniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru cyn erlyn o dan Ran III o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd. Dywedodd y Cyngor wrth y Pwyllgor: *"…At the point of serving a notice, we have to specify what works are required to abate the nuisance. Now, if that work is already under way, then there wouldn't be anything further that we have to add to that. In addition, we wouldn't be able to take any further legal action, i.e. prosecution for non-compliance, without the express permission of the Secretary of State…"*.[36]

**42.** Yn ddiweddarach, rhoddodd y cyngor eglurhad defnyddiol pellach ar y fframwaith cyfreithiol ar gyfer asesu 'niwsans statudol'[37] – y cyfeirir ato'n benodol yn y ddeiseb:

[35] Y Pwyllgor Deisebau, 22 Medi 2025, Paragraff 64
[36] Y Pwyllgor Deisebau, 22 Medi 2025, Paragraff 138
[37] Crynodeb o Gyflwyniad Deiseb Arogl Safle Tirlenwi yr Hafod - adroddiad cryno - 10 Tachwedd 2025

> *"It is important to provide distinction between detectable odour and legally actionable nuisance. Under Section 79 of the Environmental Protection Act 1990, a statutory nuisance requires:*
>
> - *Serious and unreasonable interference with property use and enjoyment*
> - *Assessment of frequency, duration, timing, and impact*
> - *Direct witness testimony by qualified enforcement officers*
> - *Evidence meeting the legal threshold of 'balance of probability'*
>
> *There are no automatic numerical thresholds that define statutory nuisance - it requires professional judgment in specific circumstances. Officers must personally experience the nuisance at a complainant's address to take enforcement action.*
>
> Policy Implication: *The council cannot lawfully serve an abatement notice without meeting these evidential requirements. Acting without proper grounds would be ultra vires and subject to judicial review."*

## Gorfodi

**43.** Cadarnhaodd James McClymont o Cyfoeth Naturiol Cymru fod y drwydded amgylcheddol yn cynnwys amod sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r gweithredwr atal arogl oddi ar y safle, neu lle nad yw hynny'n bosibl, i'w gadw i'r lleiafswm. Mae'r gweithredwr yn disgrifio sut y bydd yn cyflawni hyn mewn 'cynllun rheoli arogleuon', y mae'n rhaid ei ddiweddaru, a chaiff pob adolygiad ei asesu gan swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau eu bod yn cynnwys meysydd gweithrediadau allweddol mewn perthynas â rheoli arogleuon.[38]

**44.** Esboniodd Charlie Pope o Wasanaeth Cynllunio Mwynau a Gwastraff Gogledd Cymru ei fod yn cynnal ymweliadau monitro wedi'u rhaglennu ar gyfer yr Hafod ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae'r rôl yn dod o fewn Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, gyda chyfrifoldeb am fynd allan a monitro'r safle o ran y caniatâd cynllunio a'r amodau sy'n gysylltiedig â'r caniatâd cynllunio hwnnw. Eglurodd: *"…for the avoidance of doubt: there aren't any conditions on that planning permission that specifically relate to odour. However, mud on the road*

[38] Y Pwyllgor Deisebau, 22 Medi 2025, Paragraff 29

*and other aspects like that, it's my role to enforce conditions related to that planning permission on that. Also, within that role, I attend the liaison group meeting that occurs, I think three to four times a year, to the community as well as Enovert"*[39].

## Mesurau lliniaru a monitro ychwanegol

**45.** Yn ogystal â'r holl gamau sy'n ofynnol gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac a gyflawnir gan y gweithredwr – fel y manylir yn nhystiolaeth Enovert[40] – mae Wrecsam ac Enovert wedi ariannu mwy o waith monitro ansawdd aer ar y cyd ers cychwyn y ddeiseb. Mae'r cynllun yn cynnwys monitro nwy HS2 ar y safle ac yn y gymuned.

**46.** Gosododd Enovert bedair gorsaf fonitro o amgylch y safle, a phenododd "ymgynghorwyr amgylcheddol annibynnol blaenllaw" i asesu'r data a gesglir o'r dyfeisiau 'pod AQMesh' hyn, sy'n monitro mewn amser real. Cadarnhaodd Enovert ei fod wedi ymgynghori â gwasanaeth diogelu'r cyhoedd y cyngor ar ba ddyfeisiau i'w defnyddio. Gofynnodd y Pwyllgor ynghylch penodi ymgynghorydd Geotechnology i gynghori ar y monitro. Dywedodd Enovert ei fod wedi ymgynghori â'r cyngor a Cyfoeth Naturiol Cymru, a'i fod yn ymwybodol bod Geotechnology yn cynnal gwaith monitro tebyg ar safle tirlenwi arall yng Nghymru, ac felly gyda'r profiad hwnnw, teimlodd eu bod mewn sefyllfa dda i ymgymryd â'r gwaith.[41]

**47.** Dilynodd Enovert hefyd argymhelliad yr ymgynghoriaeth i osod dyfeisiau monitro tiwbiau tryllediad ychwanegol i ddarparu manylion cywir mewn perthynas â risg amlygiad gwirioneddol. Esboniodd Enovert: *"Those measure, to a health-based criterion, exposure over a period of time. That data has come back to show that all of the readings, when compared to the ATSDR/USEPA criteria*[42]*, are below the relevant limits."*[43]

**48.** Esboniodd Enovert fod Wrecsam wedi talu am ddata o'r ddyfais AQMesh sydd wedi'i lleoli yn y gymuned, a'i fod yn gyfrifol amdano, a bod Enovert yn talu

[39] Y Pwyllgor Deisebau, 22 Medi 2025, Paragraff 27
[40] Y Pwyllgor Deisebau, 22 Medi 2025, Gohebiaeth gan Enovert
[41] Y Pwyllgor Deisebau, 22 Medi 2025, Paragraff 219
[42] Mae'r canlyniadau meintiol o'r tiwbiau tryledfiad yn cael eu cymharu â meini prawf sy'n seiliedig ar iechyd a ddatblygwyd gan asiantaethau iechyd yn UDA (gweler cyfeiriadau 1 a 2) – Crynodeb o Ansawdd Aer Hafod Gorffennaf-Awst 2025, Crynodeb Gweithredol, Tudalen iii
[43] Y Pwyllgor Deisebau, 22 Medi 2025, Paragraff 210

am y dyfeisiau ar y safle, ac yn gyfrifol amdanynt, gyda data yn cael ei rannu er mwyn cael darlun llawn. O ran cyhoeddi'r data, dywedodd Enovert:

> *"The monitoring exercise needs to gather a sufficient body of data to allow proper assessment of the air quality environment. We are awaiting the data from the instruments for the third monitoring period at the time of writing. We have agreed to provide the latest monitoring data summary, with the benefit of the third round of monitoring detail, to the Senedd Petitions Committee by 15th September for inclusion in our evidence."*[44]

**49.** Ym mis Ebrill, roedd Pwyllgor Craffu ar Gartrefi a'r Amgylchedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi trafod yr amser sydd ei angen i gasglu digon o ddata ar gyfer asesiad ac roedd y gweithredwr wedi awgrymu blwyddyn yn ddelfrydol, ond byddai'r data hwnnw ar gael yn gynt. Cytunodd y cyngor i edrych ar y data i ddechrau ar ôl 6 mis, hynny yw ym mis Hydref, ond penderfynodd ym mis Hydref ohirio ystyriaeth bellach yn ei raglen waith tan ar ôl i'r Pwyllgor hwn gwblhau ei ymchwiliad.

**50.** Dangosodd adroddiad Geotechnology a ddarparwyd i'r pwyllgor ym mis Medi ddata monitro ansawdd aer heb ei galibradu. Esboniodd Enovert fod angen rhywfaint o raddnodi ar unedau AQMesh yn erbyn dyfeisiadau eraill a ddefnyddiwyd mewn mannau eraill yn y DU, a dywedodd ei fod yn gorfod casglu cronfa o ddata er mwyn caniatáu i'r ymgynghorwyr asesu'r perfformiad.[45] Dywedodd Prif Weithredwr Enovert wrth y Pwyllgor:

> *"There's been some pressure, if I'm honest, to provide data externally before we'd actually had a chance to collect enough data to undertake the calibration. I think that that's why we found ourselves in the position where that data is being questioned."*[46]

**51.** Esboniodd Enovert, oherwydd bod y monitro hwn y tu allan i ofynion y drwydded, nad oedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu cysylltu'n uniongyrchol ag ef, ond roedd wedi cynnig ei Ofod Dinasyddion[47] i gynnwys linc i'r adroddiadau cryno.[48] Dywedodd Enovert: *"the initial request to undertake that monitoring*

[44] Y Pwyllgor Deisebau, 22 Medi 2025, Gohebiaeth gan Enovert, Eitem 2
[45] Y Pwyllgor Deisebau, 22 Medi 2025, Paragraffau 208-216
[46] Y Pwyllgor Deisebau, 22 Medi 2025, Paragraff 212
[47] Sut rydym yn rheoleiddio Safle Tirlenwi Hafod, Wrecsam - Gofod Dinaysddion
[48] Y Pwyllgor Deisebau, 22 Medi 2025, Paragraff 214

*from the Wrexham environment and homes scrutiny committee was very much based around health impact assessment, and so we will be ensuring that the data that is reported can provide confidence in answering that question and provide data sufficient to give transparency on the conclusions that that draws".*

## Bygythiad i iechyd y cyhoedd, neu niwsans annifyr?

**52.** Heriodd y prif ddeisebydd y safonau sy'n cael eu defnyddio i asesu'r data monitro, gan ddweud bod safonau galwedigaethol yn amhriodol i fesur risg i'r gymuned, a chyfeiriodd at ganllawiau Sefydliad Iechyd y Byd yn lle hynny.[49] Roedd adroddiad y cyngor ym mis Ebrill yn esbonio: "There is a World Health Organisation standard for this gas in the open environment of 5 ppb (odour threshold). The only UK limits are to be found in work place controls where there are both 8 hour limits, which represent the exposure over the working day, and 15 minute limits which represents the peak exposure in this time period"[50]. Yn dilyn hynny, cynghorodd Iechyd Cyhoeddus Cymru fod safonau amlygiad galwedigaethol yn amhriodol ar gyfer asesu amlygiad i'r cyhoedd, a chadarnhaodd y canllawiau y dylid eu defnyddio, gan gynnwys y rhai a osodwyd gan Sefydliad Iechyd y Byd.[51]

**53.** Mae'r crynodeb gweithredol o'r adroddiad ansawdd aer o rownd monitro Gorffennaf-Awst 2025 yn yr Hafod yn nodi bod arogleuon yn cael eu canfod yn anaml yn ystod monitro arogl mewn llawer o safleoedd monitro, ac yn nodi ar gyfer darlleniadau $H_2S$:

> *"The lowest health criteria value is 1ppb and the highest concentration detected at the tubes 0.26ppb. Geotechnology understands that Public Health Wales (PHW) has evaluated some of the previous data and concluded that the data suggests the long-term (lifetime) health risk is low and that they do not need to be informed of the results unless the data shows concentrations routinely above exposure standards, which is not the current case."*

**54.** Mae'r adroddiad hefyd yn nodi bod $H_2S$ wedi'i ganfod pan oedd y gwynt yn chwythu tuag at ac oddi yno, a allai nodi sawl ffynhonnell yn yr ardal, ac felly bydd podiau ychwanegol yn cael eu defnyddio i ddal mwy o ddarlleniadau $H_2S$ cefndir i

[49] Y Pwyllgor Deisebau, 10 Tachwedd 2025, Gohebiaeth gan y Deisebydd, 21 Hydref 2025
[50] (Pecyn Cyhoeddus) Eitem 5 Rhaglen Pwyllgor Craffu ar Gartrefi a'r Amgylchedd, 29/04/2025 10:30
[51] Y Pwyllgor Deisebau, 22 Medi 2025, Gohebiaeth gan Iechyd Cyhoeddus Cymru

fyny'r gwynt ac i lawr y gwynt. Mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad a ganlyn: "Such different lines of evidence indicate that the risks to human health are low and that there are potentially multiple sources of odour in the locality. Based on the available odour monitoring, these odours do not appear persistent"[52].

**55.** Mae'r prif ddeisebydd wedi cyflwyno tystiolaeth fanwl sy'n herio dibynadwyedd y data pod AQMesh cychwynnol heb ei galibradu a'r data tiwb tryledi ad.[53] Dywed Iechyd Cyhoeddus Cymru: "incorrectly used diffusion tube monitoring data to arrive at a Low Risk assessment", which he says is a 'misdirection' as "the report draws focus away from the more relevant acute exposures captured by the real-time data (AQMesh pods) and the community's lived experience of odour". Mae ei dystiolaeth yn dweud eu bod yn darparu cyfartaledd hirdymor yn unig, a chyfartaledd o frigau uchel. Mae hefyd yn siomedig gyda'r ffordd y mae'r data yn cael ei gyflwyno yn yr adroddiad, gan ddweud bod cywasgu'r gyfres amser yn y graffiau yn gamarweiniol iawn a bod hynny'n cyfrannu at ddull aneglur ac annigonol.

**56.** Ers rhoi tystiolaeth i'r pwyllgor ar 10 Tachwedd, mae'r prif ddeisebydd hefyd wedi codi pryderon am statws gweithredol a dibynadwyedd Geotechnology, ar ôl ceisio eglurhad yn annibynnol am ddata yn yr adroddiad a gomisiynwyd gan eu cleient, Enovert. Mae'r cwmni wedi cael ei gofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau ers 2008 fel ymgynghoriaeth geodechnegol ac amgylcheddol arbenigol, ac yn ôl ei wefan, mae wedi cael ei gynnwys gan Asiantaeth yr Amgylchedd, sef Cyfoeth Naturiol Cymru bellach, am dros ddegawd fel cynghorwyr technegol arbenigol ar reoli gwastraff tirlenwi. Yn ddiweddar, cynhaliodd waith monitro yn ymwneud â chamau gorfodi Cyfoeth Naturiol Cymru yn safle tirlenwi Withyhedge yn Sir Benfro.

**57.** Cyflwynodd Iechyd Cyhoeddus Cymru dystiolaeth ysgrifenedig yn manylu ar y rhan y mae'n ei chwarae gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam mewn perthynas ag arogl yn yr Hafod. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn darparu cyngor ar werthoedd canllaw ar gyfer asesu amlygiad y cyhoedd i hydrogen sylffid dros wahanol gyfnodau amser. Fel y nodwyd yn yr adroddiad cryno ansawdd aer, mae'n dweud nad oes angen cael gwybod am ganfyddiadau arferol oni bai bod y data yn dangos pryderon sylweddol e.e. crynodiadau yn rheolaidd uwchlaw'r safonau amlygiad.[54]

---

[52] Crynodeb Ansawdd Aer yr Hafod Gorffennaf-Awst 2025
[53] Y Pwyllgor Deisebau, 10 Tachwedd 2025, Gohebiaeth gan y Deisebydd
[54] Y Pwyllgor Deisebau, 22 Medi 2025, Gohebiaeth gan Iechyd Cyhoeddus Cymru

**58.** Darparodd Iechyd Cyhoeddus Cymru wybodaeth hefyd ar asesu crynodiad Cyfansoddion Organig Anweddol (VOC) yn yr aer, nad yw'n cynnwys hydrogen sylffid. Mae'n awgrymu y gellid defnyddio bensen fel dirprwy ceidwadol ar gyfer asesu risgiau iechyd VOC oni bai bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn gallu sefydlu amcangyfrif gwybodus o'r hyn y mae VOCs yn debygol o fod yn bresennol. Mae'r deisebydd hefyd wedi gofyn yn ei dystiolaeth,[55] o ystyried pa mor hir mae'r safle wedi bod yn weithredol, p'un a yw'r cyngor, y rheoleiddiwr a'r gweithredwr yn gallu cadarnhau a fu monitro ar gyfer presenoldeb posibl biphenals polychlorinated (PCBs).

**59.** Ym mis Medi gofynnodd y prif ddeisebydd[56] am ymateb gan y cyngor a Cyfoeth Naturiol Cymru i'r 'cyngor diofyn' (nad yw'n unigryw i Hafod) a nodwyd gan Kristian James o Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn cyfarfod craffu Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ym mis Ebrill: y gallai preswylwyr gau drysau a ffenestri neu efallai fynd am seibiant o'r ardal os yn bosibl pan fydd lefelau $H_2S$ yn uwch na chanllawiau Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer niwsans. Roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cefnogi'r holl fesurau sy'n cael eu cymryd i leihau arogl. Pwysleisiodd hefyd, os oedd pobl yn profi symptomau nad oeddent yn gallu eu hegluro neu'n poeni am eu hiechyd, y cyngor diofyn fyddai ceisio cyngor meddygol yn y ffordd arferol.

**60.** Mae gan breswylwyr bryderon am dan-adrodd posibl o lefelau $H_2S$ yn yr Hafod, ac edrychodd hefyd ar brofiad mewn mannau eraill yn y DU, yn enwedig yng ngoleuni'r ffaith bod safleoedd tirlenwi eraill wedi'u cau. Esboniodd un preswylydd lleol:

> *"In August 2024 it was stated that levels of hydrogen sulphide at the Walley's Quarry landfill site in Staffordshire had been consistently under reported by the Environment Agency, from the initial installation of the equipment in 2016 right up until August 2023, due to the air quality monitors being incorrectly calibrated."*[57]

**61.** Nododd y prif ddeisebydd hefyd: "in R (Matthew Richards) v Environment Agency and Walleys Quarry Ltd, the High Court found that excessive Hydrogen

[55] Y Pwyllgor Deisebau, 22 Medi 2025, Gohebiaeth gan y Deisebydd at y Pwyllgor 21 Awst 2025
[56] Y Pwyllgor Deisebau, 22 Medi 2025, Gohebiaeth gan y Deisebydd at y Pwyllgor 21 Awst 2025
[57] Cyfarfod y Pwyllgor Deisebau, 22 Medi 2025, Gohebiaeth gan Anne Griffiths Grŵp Cyswllt yr Hafod.

Sulphide posed a risk to life and family life under Articles 2 and 8 of the European Convention on Human Rights"[58].

**62.** Mae'r ffaith bod gwaith monitro wedi cael ei gyd-ariannu gan Enovert, a'i ddadansoddi gan ymgynghorwyr yr oedd wedi'u penodi, yn debygol o fod yn ffactor yn ddiffyg ymddiriedaeth preswylwyr yn y data. Dywedodd preswylydd sy'n aelod o Grŵp Cyswllt yr Hafod wrth y Pwyllgor ym mis Awst:

> *"The monitors have been fitted for several months now but the residents are still waiting for the results. They are all being monitored by Enovert, including the council one. They say they are making sure it is accessible to all to read and understand. Another 7 months that we don't know what we are breathing in. I think that the council owned Monitors should be read regularly by an independent company not the one used by Enovert."*[59]

**63.** Darparwyd data i'r Pwyllgor ddau ddiwrnod cyn clywed tystiolaeth lafar gan y gweithredwr a'r rheoleiddwyr. Mae'r prif ddeisebydd wedi cwestiynu'r data a ddarparwyd i'r Pwyllgor ym mis Medi 2025 yn fanwl, fodd bynnag, dywedodd y gweithredwr fod angen calibradu pellach a dehongli gofalus.

**64.** Darparodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ganlyniadau'r data wedi'i ail-galibradu i'r Pwyllgor mewn e-bost lai na dwy awr cyn i'r Aelodau glywed tystiolaeth gan y prif ddeisebydd ar 10 Tachwedd (oherwydd amgylchiadau annisgwyl cafodd y sesiwn dystiolaeth ei gohirio o 20 Hydref). Roedd dadansoddiad annibynnol y prif ddeisebydd o ddata cynharach yn gwrthbrofi'r data'n gryf, ac roedd hefyd yn dadlau bod y cyngor a'r partneriaid wedi cymryd camau llawer mwy na'r hyn a fyddai fel arfer yn ofynnol mewn amgylchiadau o'r fath.

**65.** Nid oedd digon o amser i'r Pwyllgor adolygu'r wybodaeth ychwanegol hon gan y cyngor yn briodol cyn clywed tystiolaeth gan y prif ddeisebydd, ac nid oedd yn glir ar y pwynt hwnnw pa gynlluniau oedd gan y cyngor i'w gwneud ar gael i'r cyhoedd. Cyfeiriwyd ato wedi hynny mewn datganiad cyhoeddus[60] gan Aelod Arweiniol y cyngor dros Gynllunio Strategol a Diogelu'r Cyhoedd, a ddywedodd:

[58] Cyfarfod y Pwyllgor Deisebau, 22 Medi 2025, Gohebiaeth gan y Deisebydd at y Pwyllgor 21 Awst 2025
[59] Gohebiaeth gan Breswylydd Dorothy Tunnah
[60] Wrexham Counci hits back at Hafod landfill site campaigner | The Leader

*"The review of the information and data which Mr Gittins is using contains numerous inaccuracies, misinterpretations and misunderstandings which he is using in order to create the impression that Wrexham County Borough Council and other agencies are failing in their statutory duties and that the site is causing damage to residents' health.*

*"The situation is the opposite - the council and other agencies have taken action far in excess of what is normally required and have responded to local concerns. A recent Motion to the Council signed by local members resulted in the establishment of a stakeholder group which co-ordinates the activities of all partner agencies and ensures that accurate information is communicated to the local communities."*

**66.** Cyhoeddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam Ddatganiad ar y Cyd gan Grŵp Rhanddeiliaid yr Hafod ar wefan newyddion ei gyngor ar 12 Tachwedd, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i breswylwyr am waith wedi'i gwblhau a'i gynllunio ar y safle, ac yn cadarnhau bod y data wedi'i ail-galibradu yn dangos lefelau $H_2S$ sydd "yn is o lawer" na'r lefel a fyddai'n risg i iechyd y cyhoedd:

*"Mae data sy'n gysylltiedig â'r monitro diweddaraf yn parhau i ddangos bod y crynodiadau o hydrogen sylffid, sef y cyfansoddyn cemegol a gydnabyddir fel yr oglau 'wy drwg' mewn nwy tirlenwi, sy'n cael eu cofnodi yn is o lawer nag 1 rhan fesul biliwn (ppb) ym mhob lleoliad gan gynnwys y ganolfan gymunedol. Cydnabyddir 1ppb fel y gwerth maen prawf iechyd isaf gan Iechyd Cyhoeddus Cymru."*[61]

**67.** Roedd y datganiad yn cyfeirio preswylwyr at Ofod Dinasyddion Cyfoeth Naturiol Cymru i gael rhagor o wybodaeth, fodd bynnag, ar 3 Rhagfyr nid oedd y dudalen honno wedi'i diweddaru gyda gwybodaeth newydd ac nid oedd y data wedi'i ddiweddaru ychwaith. Mae diweddaru'r Gofod Dinasyddion yn fater i'r rheoleiddiwr, ond yn enwedig yng ngoleuni pryderon lleol, mae'n bwysig bod gwybodaeth i'r cyhoedd yn cael ei chyhoeddi mewn ffordd gyson ac amserol.

[61] Diweddariad ar safle tirlenwi Hafod – Tachwedd 2025 - Newyddion Cyngor Wrecsam

**68.** Yn ôl y dystiolaeth a ddarparodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i'r Pwyllgor ar 10 Tachwedd, a oedd yn nodi bod y data wedi'i ail-galibradu yn dangos effeithiau is:

> *"Following a comprehensive calibration exercise by the equipment manufacturer (AQMesh), the actual data from March-October 2025 shows:*
>
> - *Average levels: 1-3 ppb across the monitoring period*
> - *Peak recording: 25 ppb (30-minute average at Johnstown Community Centre)*
> - *WHO health standard (107 ppb): Never breached, even at shortest measurement intervals*
> - *Exceedances of odour perception level (4.7 ppb): 23% of readings, not the 39% claimed by the petitioner"*

**69.** Nododd y cyngor mai goblygiad hyn oedd: "While odours are periodically detectable, they remain well below levels associated with health effects according to international guidelines"[62].

## Profion Arogli

**70.** Un o'r pethau syfrdanol sy'n dod o'r ymchwiliad yw dibyniaeth Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol ar brofion arogli 'goddrychol'. Oni bai am gwynion cymunedol cyson, a chydweithrediad Enovert, ni fyddai cyfundrefn fonitro dechnegol yn yr Hafod.

**71.** Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru wrth y Pwyllgor ei fod yn gweithio gydag Asiantaethau Amgylcheddol eraill y DU i rannu llwybr hyfforddi arogl ar gyfer staff sy'n caniatáu a rheoleiddio safleoedd diwydiannol, sy'n cynnwys nifer o leoedd ar gyfer hyfforddiant wyneb yn wyneb. Dywed ei fod yn targedu adnoddau yn seiliedig ar yr angen mewn meysydd gweithredol penodol yng Nghymru ac argaeledd staff. I ategu'r llwybr hyfforddi hwn, mae hefyd yn ymgymryd â phrofion arogli wyneb yn wyneb, sy'n caniatáu i swyddogion rheoleiddio asesu lle mae eu sensitifrwydd arogleuon eu hunain ymysg y boblogaeth gyffredinol.

[62] Crynodeb o Ddeiseb Arogl Safle Tirlenwi yr Hafod - adroddiad cryno - 10 Tachwedd 2025

**72.** Mae'r prif ddeisebydd wedi gofyn am y cofnodion hyfforddi a'r cofnodion profion arogli wythnosol heb eu golygu yn dyddio'n ôl i 2003. Waeth pa mor bell yn ôl y mae data ar gael a pha mor ddefnyddiol fyddai hyn at ddibenion yr ymchwiliad hwn, hoffai'r Pwyllgor gael sicrwydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru bod swyddogion sy'n ymgymryd â'r profion arogli cymunedol hyn – sy'n ychwanegol at fonitro awtomataidd – wedi cael hyfforddiant addas, a bod hyn yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

## Ein barn ni

**73.** Yng ngoleuni toriadau parhaus o'r drwydded, rhaid i reoliadau llym a diweddariadau gael eu cyhoeddi'n rheolaidd ar gamau gweithredu er mwyn sicrhau preswylwyr. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod gwaith monitro gweithredol o'r safle, a bod y mesurau a gymerir yn mynd y tu hwnt i amodau'r Drwydded Amgylcheddol. Mae'r Aelodau'n croesawu'r rhaglen fonitro hon yn fawr iawn; y rheoleiddiwr yn cynnal ymweliadau dirybudd rheolaidd; a bod y cyngor yn bwriadu ystyried y sefyllfa ymhellach yn dilyn yr adroddiad hwn. Nodwn fod Pwyllgor Craffu ar Gartrefi a'r Amgylchedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn ei gyfarfod ar 15 Hydref 2025[63] wedi cytuno yn ei raglen waith y bydd cyfarfod sy'n diweddaru datblygiadau ynglŷn â safle gwastraff yr Hafod yn cael ei gynnal cyn gynted â phosibl, ar ôl i'r mater hwn gael ei ystyried gan bwyllgor Deisebau'r Senedd. Ni ddylai sylw sy'n canolbwyntio ar ymchwiliad byr y pwyllgor hwn gymryd lle ymdrechion parhaus gan y Grŵp Rhanddeiliaid, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Cyfoeth Naturiol Cymru i fonitro cydymffurfiaeth y gweithredwr ac adrodd yn glir ar y camau nesaf.

**74.** Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd hyd yma gan y cyngor, y rheoleiddiwr ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn nodi, er bod yr arogleuon yn amlwg yn niwsans i bobl sy'n byw gerllaw, a bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dweud bod yn rhaid i'r safle weithredu'n effeithiol i'w lleihau, nid ydynt ar lefelau sy'n fygythiad i iechyd y cyhoedd. Mae'r prif ddeisebydd yn parhau i wrthod hyn yn gryf. Rydym yn gobeithio, drwy barhau i gyhoeddi data wedi'i galibradu'n briodol ac ymgysylltu â phreswylwyr y bydd yn bosibl eu sicrhau nad yw unrhyw niwsans arogl yn berygl uniongyrchol i'w hiechyd corfforol.

**75.** Dywedodd y Cynghorydd Hugh Jones, Aelod Arweiniol dros Gynllunio Strategol a Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Wrecsam: *"The fact is that the recorded data is well below any threshold requiring such action. As a result of the work of*

[63] Pori cyfarfodydd - Pwyllgor Craffu ar Gartrefi a'r Amgylchedd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

*local members and Wrexham Council, significant improvements have been made in the monitoring and control of any emissions from the site, resulting in a significant reduction in the number of complaints being received"*[64].

**76.** Mae'n amlwg bod diffyg ymddiriedaeth llwyr rhwng yr awdurdod lleol a rhai preswylwyr lleol ynghylch sut y mae achosion o dorri'r drwydded yn Hafod wedi cael eu hymchwilio a'u datrys. Yn benodol, mae gwrthdaro rhwng y prif ddeisebydd a'r awdurdod lleol, ac mae hynny wedi digwydd yn gyhoeddus. Mae'r prif ddeisebydd wedi cyfeirio ei bryderon at yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus i'w ymchwilio, sef y sianel briodol. Yn ei ymateb i dystiolaeth y prif ddeisebwyr i'r Pwyllgor ym mis Medi 2025, nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam fod preswylwyr sy'n anfodlon â'i ddull wedi cael cyfarwyddyd i gwyno i'r Ombwdsmon Llywodraeth Leol.[65] Mae ein rheolau yn glir nad deiseb y Senedd yw'r sianel briodol ar gyfer materion sydd wedi'u cyfeirio at yr Ombwdsmon.

**Argymhelliad 1.** Dylai Enovert a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam sicrhau bod gwaith calibradu data monitro AQMesh Pod yn llawn ar gyfer cywirdeb yn digwydd cyn gynted â phosibl, a bod yr holl ddata monitro yn cael ei gyhoeddi ar unwaith pan fydd y gwaith calibradu wedi'i gwblhau. Rhaid i'r rheoleiddwyr a'r preswylwyr allu asesu canlyniad gweithgarwch monitro. Yn ddelfrydol, dylid darparu gwybodaeth mewn amser real os yw'r gallu technegol yn bodoli i wneud hynny.

**Argymhelliad 2.** Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru sicrhau bod staff sy'n cynnal 'profion arogli' cymunedol i helpu i asesu niwsans arogl wedi cael hyfforddiant priodol, a bod hyfforddiant a chymhwysedd i gynnal y profion hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

## A oes bwlch mewn goruchwyliaeth reoleiddiol?

**77.** Mae'r deisebwyr yn honni bod yna 'fan dall' o ran rheoleiddio yn y gyfundrefn ar gyfer rheoli'r safle tirlenwi. Dywedodd y prif ddeisebydd wrth y Pwyllgor ym mis Ebrill: "If real-time monitoring suggests compliance yet odours persist at such great distances, it demonstrates that the permit framework is fundamentally unfit for purpose in protecting public well-being"[66]. Dywedodd: "NRW's permitting framework must be revised to include the persistent and unmanageable breach of air quality and odour nuisance standards - compounded by confirmed leachate

[64] Campaigners accuse Wrexham Council of downplaying quarry odour issues - Wrexham.com
[65] Crynodeb o'r Asesiad gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i'r cyflwyniad diweddar i Bwyllgor Deisebau'r Senedd - 10 Tachwedd 2025.
[66] Cyfarfod y Pwyllgor Deisebau, 28 Ebrill 2025, Gohebiaeth gan y Deisebydd Ebrill 2025

system failures - as an automatic trigger for permit revocation, independent of the operator's proposed action plan. The burden of proof for environmental safety must rest solely with the operator"[67].

**78.** Dywedodd aelod o Grŵp Cyswllt yr Hafod:

> *"One of Enovert's most frequent responses to any complaints about the site is 'we are working in accordance with the permit'….With the permit covering such a long period of time, permissions should be revisited in order to confirm that landfill still remains the most suitable outlet for waste."*[68]

## Ein barn ni

**79.** Mae'r Pwyllgor yn nodi barn y deisebwyr bod y fframwaith rheoleiddio trwyddedau tirlenwi presennol yn 'ddiffygiol', a bod 'methiant rheoleiddio'.

**80.** Nid yw'r drwydded ar gyfer y safle hwn yn gofyn am y gwaith monitro ansawdd aer sydd bellach yn cael ei gynnal er mwyn rhoi sicrwydd i'r gymuned. Gan nad oes sail statudol i'r gwaith monitro hwn, mae'n golygu y gellir cwestiynu a beirniadu methodoleg a dehongliad y data. Mae cwestiynau hefyd ynglŷn â'r sail i benderfynu beth yw 'niwsans statudol' a pha gamau a all godi, neu beidio â chodi, o ganlyniad. Mae'r pwyllgor yn credu bod rhai materion rheoleiddio 'darlun mawr' yma i Lywodraeth Cymru eu hystyried. Dylai edrych yn ofalus ar y rheoliadau trwyddedu presennol, a sut maent yn cael eu gorfodi, a darparu sicrwydd eu bod yn parhau i fod yn addas i'r diben yng ngoleuni'r dystiolaeth a ddarparwyd i'r ymchwiliad byr hwn.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno monitro arogleuon awtomataidd gorfodol mewn safleoedd tirlenwi. Nid yw hyn yn rhywbeth sy'n ofynnol ar hyn o bryd gan Cyfoeth Naturiol Cymru, a dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod rheoleiddwyr yn cael eu hariannu'n ddigonol er mwyn hwyluso hyn.

**Argymhelliad 4.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai ymgysylltu â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r holl awdurdodau lleol i egluro sut y gall awdurdodau lleol ddefnyddio'r pwerau sydd ganddynt yn ymarferol i amddiffyn eu cymunedau rhag niwsans statudol, a pha feini prawf y

[67] Cyfarfod y Pwyllgor Deisebau, 10 Tachwedd 2025, Gohebiaeth gan y Deisebydd
[68] Y Pwyllgor Deisebau, 22 Medi 2025, Gohebiaeth gan Anne Griffiths Grŵp Cyswllt yr Hafod.

byddai Gweinidogion Cymru yn eu defnyddio er mwyn cymeradwyo ymyrraeth, mewn achosion fel safle tirlenwi'r Hafod.

**Argymhelliad 5.** Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru ystyried a ddylai'r meini prawf ar gyfer mesur lefelau hydrogen sylffid ($H_2S$), sy'n achosi arogl "wyau wedi pydru", gael eu cynnwys mewn amodau trwydded amgylcheddol, ac adrodd yn ôl i Weinidogion Cymru ynghylch a ddylid comisiynu mwy o waith ar fesur trothwyon $H_2S$ priodol.

## Effeithiau newid hinsawdd

**81.** Mae gan amrywiad mwy eithafol mewn glawiad oherwydd newid hinsawdd y potensial i waethygu'r arogl a gynhyrchir mewn safleoedd tirlenwi. Fel y nodwyd yn gynharach, nid oedd hyn yn rhywbeth yr oedd Enovert na'r rheoleiddwyr yn ei gadarnhau, ond mae'r prif ddeisebydd yn dweud bod y dystiolaeth wyddonol yn glir.[69]

**82.** Mae cynghorwyr lleol hefyd wedi gofyn cwestiynau i Enovert ynglŷn â chapio rhannau o'r safle a pha mor gadarn y byddent mewn tywydd gwael, ac mae tystiolaeth y deisebwyr yn codi pryderon am y capio hwn.[70] Mae'n galw am gynnal 'asesiadau bregusrwydd hinsawdd' ar gyfer safleoedd tirlenwi a ganiateir, a'r rhai sy'n methu asesiad o'r fath i fod yn ddarostyngedig i 'brotocolau cau'. Mae hefyd eisiau gweld gorfodi lefelau trwytholch yn llymach a'i drin fel "risg iechyd uniongyrchol" nid mater diffyg cydymffurfio yn unig. Ysgrifennodd Cyfoeth Naturiol Cymru at Enovert North Limited ym mis Mehefin 2025[71] ynghylch asesiad risg newid hinsawdd yn safle tirlenwi'r Hafod i'w gyflwyno erbyn 30 Medi 2025.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am sicrwydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru bod y mesurau sydd ar waith mewn safleoedd tirlenwi yng Nghymru yn ddigonol i sicrhau eu bod yn wydn o ran hinsawdd yn ystod eu bywydau gweithredol ac ar ôl hynny.

**Argymhelliad 7.** Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru ymchwilio i weld a oes cysylltiad rhwng glawiad a chynhyrchiad hydrogen sylffid ($H_2S$) ar safle tirlenwi'r Hafod - gan ddefnyddio'r data monitro, a'r data tywydd sydd ar gael, nid nifer y cwynion yn unig. Os canfyddir bod cysylltiad, rhaid iddo ystyried hyn yn y dull rheoleiddio.

[69] Y Pwyllgor Deisebau, 10 Tachwedd 2025 Deisebau - Tystiolaeth TERFYNOL i Bwyllgor Deisebau'r Senedd
[70] Y Pwyllgor Deisebau, 16 Mehefin 2025, Gohebiaeth gan y Deisebydd
[71] Cofrestr gyhoeddus - Porth y Cwsmer

## Syrffed ar gwyno

**83.** Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Wrecsam wrth y Pwyllgor fod gostyngiad wedi bod yn nifer y cwynion, ac mae'r ffigurau a gyhoeddwyd gan Grŵp Rhanddeiliaid yr Hafod yn dangos gostyngiad o 262 ym mis Ionawr 2025 i 15 ym mis Tachwedd.[72] Gofynnwyd i Cyfoeth Naturiol Cymru a oedd y lleihad oherwydd y ffactorau lliniarol sydd wedi'u rhoi ar waith ar ôl yr hysbysiad gorfodi. Dywedodd James McClymont o Cyfoeth Naturiol Cymru:

> *"It's definitely encouraging to see that decreasing trend following regulatory actions, but we recognise that there are still odours being experienced in the community. And there are certainly further management works and actions that can be completed by the operator, and there are action plans for enhanced landfill gas management and enhanced leachate management…"*[73]

**84.** Mae'r deisebwyr yn pwysleisio na ellir mesur profiad byw preswylwyr yn ôl nifer y cwynion sy'n dod i law'r cyngor neu Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r prif ddeisebydd yn cyfeirio at astudiaethau achos eraill sy'n dangos sut mae 'syrffed ar gwyno' yn gallu bod yn beryglus oherwydd effaith hynny ar wneud penderfyniadau:

> *"a reduction in complaints due to fatigue is not an indicator of a successful reduction in statutory nuisance; it is a critical indicator of a failed or exhausted public engagement process."*[74]

**85.** Esboniodd un preswylydd lleol sy'n aelod o Grŵp Cyswllt yr Hafod fod y ffordd y mae achosion yn cael eu hadrodd mewn gwirionedd wedi bod yn fater dadleuol ac nad yw nifer y cwynion yn rhoi'r darlun cywir:

> *"…When there is higher number of complaints than usual, we are told by NRW and Enovert that many of these don't appear to be genuine because they are, for example, anonymous. On the other hand, if the number of complaints is low, they congratulate themselves saying that any improvements they have made have been successful. On one of these occasions, I*

[72] Diweddariad ar safle tirlenwi Hafod – Tachwedd 2025 - Newyddion Cyngor Wrecsam
[73] Y Pwyllgor Deisebau, 22 Medi 2025, Paragraff 60
[74] Y Pwyllgor Deisebau, 10 Tachwedd 2025, Gohebiaeth gan y Deisebydd

*and a number of others did genuinely report incidents of odours, but these were brushed aside because of the high number of complaints. Unfortunately, many people who once reported odour issues no longer do so because they now feel that it is a waste of time. In fact, at one meeting it was pointed out that because the validity of the incident reports was being queried, it was beginning to make people feel that they were no longer being believed or taken seriously."*[75]

**86.** Esboniodd un arall: *"Most people, including myself, have stopped complaining to them as they know nothing ever gets done. If you complain they ask if you want feed back, but that very rarely happens. They say in our meetings that they have too many complaints to get back to everyone. NRW have only just started to do visits without prior arrangements"*[76].

**87.** Mewn ymateb, nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam fod y deisebydd yn dweud bod pobl wedi rhoi'r gorau i gwyno oherwydd diffyg gweithredu yn eu barn nhw, fodd bynnag awgrymodd fod gwaith monitro rhagweithiol ychwanegol drwy ymweliadau gan swyddogion ac offer monitro yn darparu asesiad ffeithiol heb fod angen dibynnu ar gwynion.[77] Mae hefyd yn nodi bod yn rhaid i'r cyngor weithredu o fewn cyfyngiadau cyfreithiol ac y byddai cymryd camau heb dystiolaeth yn camddefnyddio pŵer.[78]

**88.** Dywedodd y prif ddeisebydd wrth yr Aelodau:

> "*When there's a big incident and we get a protest and we raise awareness, then the complaints go up. I contacted NRW over that period, and more than—. Well, I've lost count of the times I've contacted NRW, and the response was rather apathetic, but I was told—. I said to them, 'This can happen eight, nine, 10 times a day', and they said to me, 'Well, what you must do, Mr Gittins, is report every one 10 times a day.' Well, what a burden that is on the residents of Johnstown that we've got to do that. We've got better things to do. And, interestingly, all the*

[75] Y Pwyllgor Deisebau, 22 Medi 2025, Gohebiaeth gan Ann Griffiths Grŵp Cyswllt yr Hafod .
[76] Y Pwyllgor Deisebau, 22 Medi 2025, Gohebiaeth gan breswylydd Dorothy Tunnah, 27 Awst 2025
[77] Crynodeb o'r asesiad a wnaed gan Gyngor Sir Bwrdeistref Wrecsam i'r cyflwyniad diweddar i'r Pwyllgor Deisebau – 10 Tachwedd 2025
[78] Crynodeb o'r Asesiad a wnaed gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i'r cyflwyniad diweddar i Bwyllgor Deisebau'r Senedd - 10 Tachwedd 2025

> *witnesses at the first inquiry who have said, 'There's nothing to see here', none of them live in Johnstown—none of them."*[79]

### Ein barn ni

**89.** Mae 'syrffed ar gwyno' yn bryder mawr i'r deisebwyr, sy'n gwneud pwynt da wrth ddweud bod rheoleiddwyr yn defnyddio nifer y cwynion fel arwydd ar gyfer pa mor ddrwg yw'r broblem arogl. Mae cymryd camau ar sail bod pobl leol yn gorfod cofnodi cwynion yn barhaus hefyd yn rhoi baich annheg ar y person sy'n destun y niwsans. Cyn i'r rhaglen fonitro ddechrau, roedd yna wybodaeth gyfyngedig o ran barnu lefel y niwsans. Rhaid i'r cyngor a'r rheoleiddiwr ddefnyddio tystiolaeth gadarn, wrthrychol i ddeall effeithiau safleoedd rheoledig ar gymunedau yr effeithir arnynt.

## Ymgysylltu â'r Gymuned

**90.** Mynegodd preswylwyr grŵp cyswllt cymunedol hirsefydlog ar gyfer safle tirlenwi yr Hafod bryderon am sut mae'n gweithredu. Mae'r rhain yn cynnwys peidio â chael eu cymryd digon o ddifrif neu gamau gweithredu nad ydynt yn cael eu dilyn, diffyg tryloywder ynghylch gwneud penderfyniadau, a chofnodion cyfarfodydd nad ydynt yn cael eu cyhoeddi neu'n adlewyrchu'r materion a godwyd yn iawn. Dywedodd y prif ddeisebydd ei fod wedi cael ei gynghori gan aelod o'r grŵp i gyflwyno cais rhyddid gwybodaeth i Cyfoeth Naturiol Cymru i olrhain canlyniadau cyfarfodydd blaenorol, gan nad oedd unrhyw gofnodion wedi'u cofnodi yn fewnol. Ym mis Ebrill, dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru wrth Bwyllgor Craffu ar Gartrefi a'r Amgylchedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ei fod wedi derbyn adborth cadarnhaol mewn cyfarfod diweddar Grŵp Cyswllt yr Hafod am wefan a chylchlythyr Gofod Dinasyddion.

**91.** Mae ymgyrchwyr hefyd yn ymwybodol o 'Grŵp Rhanddeiliaid yr Hafod' - grŵp lefel uchel ar wahân sydd wedi'i gynllunio i weithredu ar ran preswylwyr i fynd i'r afael â'u pryderon. Mae'n cynnwys uwch gynrychiolwyr o Enovert, Cyngor Cymuned Rhos, Cyngor Cymuned Rhiwabon, Cyngor Wrecsam a Cyfoeth Naturiol Cymru, ac yn ôl ei Ddatganiad ar y Cyd ym mis Mawrth 2025,[80] mae Aelodau Seneddol ac Aelodau o'r Senedd a etholwyd yn lleol wedi ymrwymo i gefnogi ei waith. Dywedodd aelod o'r Grŵp Cyswllt eu bod wedi cael gwybod y byddai gwybodaeth yn cael ei ffrydio i lawr iddynt, ond ychwanegodd *"I do feel that by virtue of the fact that we, the people who live and work here, and are the most*

[79] Cyfarfod y Pwyllgor Deisebau, 10 Tachwedd 2025, paragraff 14
[80] Diweddariad ar safle tirlenwi Hafod – Mawrth 2025 - Newyddion Cyngor Wrecsam

*affected by the site on an almost daily basis, should have been represented, even if only in a small way"*[81].

**92.** Er bod y Pwyllgor yn derbyn efallai na fydd disgwyl i breswylwyr gymryd rhan uniongyrchol yn holl waith prosesau gwneud penderfyniadau a phwrpas y Grŵp Rhanddeiliaid, mae'n amlwg bod bwlch i'w lenwi wrth i breswylwyr gael eu sicrhau bod eu profiad byw yn cael ei gyflwyno'n llawn. Yng ngoleuni'r diffyg ymddiriedaeth rhwng preswylwyr yr effeithir arnynt gan arogl a'r rhai sy'n rheoli a rheoleiddio safle tirlenwi yr Hafod, rhaid ystyried mynd i'r afael â hyn fel blaenoriaeth.

**93.** Rhaid ystyried hefyd sut y gellir cryfhau rôl Grŵp Cyswllt yr Hafod, a grwpiau tebyg. Gallai hyn helpu i fynd i'r afael â rhai o'r camddealltwriaeth a'r cwestiynau sydd wedi codi, gan gynnwys gwell dealltwriaeth o risgiau iechyd posibl, beth y gall data monitro ei ddangos neu beidio, y mesurau ychwanegol sy'n cael eu cymryd, a beth yw'r camau nesaf y gellir eu disgwyl. Dylai pob ochr weithio'n galed i ailfeithrin ymddiriedaeth yn y gymuned leol, a rhoi sicrwydd bod eu profiad byw yn cael ei ystyried yn llawn ochr yn ochr â buddiannau masnachol a gweithredol y rhai sy'n gyfrifol am reoli gwastraff angenrheidiol.

**94.** Roedd prif weithredwr Enovert yn cydnabod hynny, a dywedodd: *"given recent criticism of the site coming through—odour complaints—and also through various media coverage and contact directly with the public, I think it's clear that any further engagement with members of the public, communities around the site, could only be of benefit to us and the community"*[82].

**95.** Mae'n briodol cloi trwy dynnu sylw at bersbectif un preswylydd hirdymor:

> *"We have already endured the effects of this site for more than 20 years and these will continue for at least another 30 years. Residents born around the turn of the millennium will not have known a time before the pervasive smell in the local area. With the permit allowing waste to be deposited until 2055, there is a good chance that some individuals in the village will have had their whole lives blighted by the gas and it is those without the means or opportunities to move away from their birthplace*

[81] Gohebiaeth gan Anne Griffiths Grŵp Cyswllt yr Hafod
[82] Y Pwyllgor Deisebau, 22 Medi 2025, Paragraff 152

> *who will bear the greatest consequences in terms of health risks and poorer quality of life."*[83]

**Argymhelliad 8.** Dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Grŵp Rhanddeiliaid yr Hafod barhau i flaenoriaethu'r gwaith o ddehongli'r data monitro; asesu pa welliannau a allai fod yn angenrheidiol i'r dull casglu a dehongli annibynnol, a chyfathrebu ei waith ar y mater hwn trwy gyhoeddi diweddariadau o leiaf bob chwarter.

**Argymhelliad 9.** Dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam egluro mewn termau syml, er budd preswylwyr, yr amgylchiadau lle y mae wedi ymyrryd yng ngwaith gweithredu'r safle, a'r amodau lle y byddai'n ymyrryd yn y dyfodol. Dylai barhau i ddarparu diweddariadau ar-lein rheolaidd ac ymgynghori ag aelodau preswylwyr Grŵp Cyswllt yr Hafod ar y dulliau mwyaf priodol o gyfathrebu gwybodaeth.

**Argymhelliad 10.** Dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam egluro'r meini prawf ar gyfer cyfranogiad preswylwyr ar Grŵp Cyswllt yr Hafod a sicrhau bod cofnodion y cyfarfod yn cael eu clirio gyda'r rhai a oedd yn bresennol a'u cyhoeddi'n brydlon drwy ddulliau sy'n gwbl hygyrch i breswylwyr.

**Argymhelliad 11.** Dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam sicrhau bod preswylwyr yn cael eu cynrychioli'n uniongyrchol ar Grŵp Rhanddeiliaid yr Hafod. Dylai hyn gael ei gyfyngu i hyd at dri chynrychiolydd, a dylid caniatáu dirprwyon.

## Casgliadau Cyffredinol

**96.** Mae'n amlwg o'r dystiolaeth a ddaeth i law gan breswylwyr lleol bod arogl o'r safle tirlenwi yn achosi gofid ac yn cael effaith negyddol ar eu bywydau. Mae'r geiriau 'anwybyddu' ac 'osgoi' yn dod i'r amlwg, ac mae preswylwyr yn dweud bod ymatebion wedi bod yn ymatebol yn hytrach na rhagweithiol. Mae hyn yn awgrymu, hyd yn oed os yw camau wedi'u cymryd, a'u bod yn dechrau dwyn ffrwyth, bod ymgyrchwyr yn erbyn presenoldeb y safle tirlenwi yn teimlo ei fod yn 'rhy fach ac yn rhy hwyr', ac nad yw eu pryderon yn cael eu cymryd digon o ddifrif.

**97.** O ganlyniad i gwynion gan breswylwyr lleol a chyda chefnogaeth gan gynrychiolwyr etholedig, mae sylw sylweddol wedi cael ei roi at y problemau yn yr Hafod. Mae mesurau wedi'u rhoi ar waith sy'n mynd y tu hwnt i ofynion y drwydded amgylcheddol ar gyfer y safle hwn. Mae hyn yn codi cwestiynau pwysig ynghylch digonolrwydd y fframwaith rheoleiddio presennol.

[83] Y Pwyllgor Deisebau, 22 Medi 2025, Gohebiaeth gan Anne Griffiths Grŵp Cyswllt yr Hafod.

**98.** Mae'r data monitro a ddarperir yn dangos torri'r trothwy ar gyfer arogl sy'n achosi niwsans, fel y'i diffinnir gan Sefydliad Iechyd y Byd, ond nid i'r graddau y mae'n cael ei ystyried yn risg i iechyd y cyhoedd. Esboniodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam hefyd nad yw diffinio 'niwsans statudol' at ddibenion gorfodi yn fater syml. Mae'r Aelodau'n deall os yw preswylwyr yn dal i brofi arogl parhaus, ond wedi rhoi'r gorau i adrodd amdano, yna mae'n rhaid bod hyn yn teimlo fel ymateb anfoddhaol iawn gan y cyngor.

**99.** Mae'r gweithredwr wedi cydweithredu'n llawn â'r Pwyllgor ers i'r penderfyniad gael ei wneud i fwrw ymlaen ag ymchwiliad. Fodd bynnag, dylid nodi hefyd ein bod wedi derbyn nifer sylweddol o gwynion gan breswylwyr yn herio rhywfaint o'r dystiolaeth lafar a ddarparwyd gan y gweithredwr, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r cyngor. Mae'n bwysig nodi bod yr ymchwiliad yn golygu bod tystiolaeth gan bob ochr ar y cofnod cyhoeddus.

**100.** Mae'r Pwyllgor yn cydymdeimlo â'r rhai yr effeithir arnynt gan niwsans arogl, ac mae'r ymchwiliad hwn wedi datgelu'r bwlch rhwng y profiad o fyw drws nesaf i safle tirlenwi a'r mesur gwyddonol o'r hyn sy'n niweidiol i iechyd a lles pobl. Hoffai'r Pwyllgor weld Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried yn ofalus sut i bontio'r bwlch hwn. Mae gwersi pwysig i'w dysgu ar gyfer delio â phroblemau a allai godi mewn mannau eraill.

**101.** Yn ddelfrydol, ni fyddai unrhyw gymuned yn byw yn ddigon agos at safle tirlenwi i gael eu heffeithio fel y mae pobl Johnstown wedi cael eu heffeithio. Mae lleihau effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol gwaredu'r gwastraff rydyn ni i gyd yn ei gynhyrchu yn her i bob llywodraeth, ac mae wedi cael ei gydnabod ers amser bod angen atebion cynaliadwy amgen i waredu gwastraff yn hytrach nag mewn safleoedd tirlenwi. Yn y cyfamser, gall y rhai sy'n byw ger safleoedd barhau i brofi problemau, a bydd y gost i reoleiddwyr mewn amser ac arian hefyd yn parhau. Yn ystod tymor hwn yn y Senedd, cynhaliodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ymchwiliad undydd i Wastraff yng Nghymru, ac mae pryderon preswylwyr am arogl safleoedd tirlenwi wedi cael eu cynnwys yn rheolaidd mewn cwestiynau yn y Siambr. Gallai'r dystiolaeth a gasglwyd yn yr ymchwiliad byr hwn fod yn sail i archwiliad manylach o'r materion hyn gyda safleoedd tirlenwi gan y pwyllgor polisi arbenigol yn y Seithfed Senedd, sef rhywbeth y mae'r Pwyllgor hwn yn bwriadu ei argymell yn ei adroddiad gwaddol.

## Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar dudalen we'r Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **22 Medi 2025** | **Y Cynghorydd Hugh Jones, Aelod Arweiniol dros Gynllunio a Gwarchod y Cyhoedd**<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam<br>**Toby Zorn, Arweinydd Tîm, Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Tai,**<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam<br>**Matthew Phillips, Pennaeth Gwasanaeth Rheoli Datblygu, Cynllunio,**<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam<br>**Charlie Pope, Uwch Swyddog Cynllunio Mwynau a Gwastraff,** Gwasanaeth Cynllunio Mwynau a Gwastraff Gogledd Cymru<br>**Sara Pearson, Rheolwr Gweithrediadau Gogledd-ddwyrain Cymru,**<br>Cyfoeth Naturiol Cymru<br>**James McClymont, Uwch Gynghorydd ac Arweinydd Tîm ar gyfer Diwydiant a Rheoleiddio Gwastraff,**<br>Cyfoeth Naturiol Cymru<br>**Mark Silvester, Prif Swyddog Gweithredol,**<br>Enovert<br>**Ian Craven, Rheolwr Rhanbarthol,**<br>Enovert |
| **10 Tachwedd 2025** | **Steven Gittins,**<br>Prif ddeisebydd |

# Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl wybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar wefan y Pwyllgor.

| Dyddiad y cyfarfod | Sefydliad |
|---|---|
| **10 Tachwedd 2025** | Gohebiaeth gan y deisebydd, Eitem 2 |
| | Gohebiaeth gan breswylwyr, Eitem 2 |
| **22 Medi 2025** | Briff Ymchwil |
| | Gohebiaeth gan y deisebydd at y Pwyllgor – 21 Awst 2025 |
| | Gohebiaeth gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Eitem 2 |
| | Gohebiaeth gan Cyfoeth Naturiol Cymru, Eitem 2 |
| | Gohebiaeth gan Enovert, Eitem 2 |
| | Gohebiaeth gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, Eitem 2 |
| | Gohebiaeth gan Ann Griffiths, Grŵp Cyswllt Tirlenwi yr Hafod, Eitem 2 |
| | Gohebiaeth gan Dorothy Tunnah, Preswylydd, Eitem 2 |
| **16 Mehefin 2025** | Gohebiaeth gan y deisebydd, Eitem 3 |
| | Gohebiaeth gan Enovert, 9 Mai 2025 |
| **28 Ebrill 2025** | Briff Ymchwil, Eitem 2 |
| | Gohebiaeth gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd, 2 Ebrill 2025, Eitem 2 |
| | Gohebiaeth gan y deisebydd, Ebrill 2025 |

## Gwybodaeth ychwanegol

| Teitl | Dyddiad |
|---|---|
| Cynghorwyr Wrecsam at y Pwyllgor (gyda'r atodiad) | 20 Awst 2025 |
| Crynodeb Ansawdd Aer Hafod | Gorffennaf i Awst 2025 |
| Gohebiaeth gan breswylydd lleol | 23 Medi 2025 |
| Gohebiaeth gan breswylydd lleol | 23 Medi 2025 |
| Gohebiaeth gan breswylydd lleol | 23 Medi 2025 |
| Gohebiaeth gan breswylydd lleol | 24 Medi 2025 |
| Sylwadau ychwanegol gan breswylwyr lleol | 19 Hydref 2025 |
| Crynodeb o'r Asesiad a wnaed gan Gyngor Sir Bwrdeistref Wrecsam i'r cyflwyniad diweddar i Bwyllgor Deisebau'r Senedd | 10 Tachwedd 2025 |